



ADSS Cymru

Yn arwain Gwasanaethau
Cymdeithasol yng Nghymru

Leading Social Services in Wales

Gweithredu Microsoft Copilot mewn Gofal Cymdeithasol yn yr ALlau yng Nghymru: Adolygiad o'r hyn a Ddysgwyd a'r Cynnydd

CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU

Ar ran

**CYMDEITHAS CYFARWYDDWYR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
(CYMRU)**

Mawrth 2026

Awdur: Ainsley Bladon a Hannah Thomas, Swyddogion Cyswllt Practice Solutions Ltd.

Cynnwys

Cynnwys	2
Cydnabyddiaeth	3
Crynodeb Gweithredol	4
Argymhellion (crynodeb).....	6
Cyflwyniad.....	7
Methodoleg	9
Llywodraethu.....	9
Gweithgareddau Ymgysylltu.....	9
Crynodeb o'r Canfyddiadau.....	12
Parodrwydd a Chynnydd	12
Llywodraethu a Rheoli Risg.....	15
Defnyddio Copilot yn Ymarferol	16
Ystyriaethau Technegol.....	19
Diwylliant y Gweithlu ac Ystyriaethau Moesegol.....	20
Tystiolaeth ac Effaith	21
Rhwystrau a Heriau	24
Galluogwyr	26
Galluogwyr ALI	28
Casgliadau	32
Argymhellion	33
I sefydliadau cenedlaethol:	33
Atodiad A: Astudiaethau Achos – Y Sylfaen Dystiolaeth sy'n Dod i'r Amlwg.....	35

Cydnabyddiaeth

Yn ystod yr adolygiad hwn, cyfarfu Tîm Prosiect Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru, drwy Practice Solutions, gydag ystod eang o randdeiliaid sy'n cynrychioli awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r amser a'r ymdrech y mae ymarferwyr, rheolwyr, penaethiaid gwasanaeth, arweinwyr digidol, ac eraill wedi ei neilltuo i'r adolygiad hwn yn cael ei werthfawrogi'n fawr, ar adeg sy'n brysur iawn i ofal cymdeithasol. Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn fuddiol o ran datblygu cymorth digidol yn y maes gofal cymdeithasol.

Crynodeb Gweithredol

Caiff y prosiect ei gyflwyno fel rhan o bartneriaeth DiSC , gyda chyllid grant Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), gan weithio gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru i gynnal adolygiad cyflym o fabwysiadu Microsoft Copilot mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion ledled Cymru

Mae'r gwaith hwn yn dilyn adroddiad '[Asesu parodrwydd digidol a gweithlu awdurdodau lleol i weithredu Copilot mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion yng Nghymru](#)' ¹(2025).

Fe wnaeth 17 o'r 22 ALI yng Nghymru gymryd rhan yn yr adolygiad drwy arolygon a chyfweliadau.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r dirwedd AI wedi esblygu'n sylweddol. Mae technoleg AI yn parhau i aeddfedu, gyda chynhyrchion newydd yn dod i'r farchnad yn rheolaidd. Gall fod yn heriol cadw ar flaen y datblygiadau a gwneud penderfyniadau yng nghyd-destun sylfaen dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, gan fod canllawiau a deddfwriaeth dal i fod yn cael eu datblygu.

Nododd yr adolygiad cyflym hwn nifer o themâu mewn perthynas â defnyddio Microsoft Copilot yn yr ALI yng Nghymru. Maent wedi eu crynhoi isod.

Parodrwydd a Chynnydd

Mae'r mwyafrif o ALLau wedi treialu Microsoft Copilot ac maent yn parhau i ddefnyddio'r offeryn. Mae rhai ALLau wedi prynu mwy o drwyddedau, er, nid yw'r rhain bob amser yn cael eu defnyddio yn y maes gofal cymdeithasol oedolion. Ychydig o ALLau sy'n bwriadu cyflwyno Copilot ar raddfa fawr ar hyn o bryd. Mae ambell i ALI wedi penderfynu peidio â defnyddio Copilot, oherwydd blaenoriaethau eraill fel symud Systemau Rheoli Achos (CMS) neu maent o blaid offeryn AI gwahanol.

Mae'r rhan fwyaf o ALLau hefyd yn defnyddio cynhyrchion AI eraill, neu'n ystyried eu defnyddio ochr yn ochr â Copilot. Mae Magic Notes hefyd yn boblogaidd ymysg ALLau. Dywedir bod y gweithlu bellach yn derbyn technoleg AI i raddau helaeth, sy'n newid o ddarlun mwy cymysg y llynedd. Mae arweinwyr digidol yn defnyddio rhai o'r swyddogaethau 'cefn swyddfa' i fonitro'r hyn a ddefnyddir ac aseinio gosodiadau diogelwch, ond mae agweddau ac aeddfedrwydd yn parhau i amrywio'n fawr rhwng ALLau.

Llywodraethu a Rheoli Risg

Mae llywodraethu yn amrywio'n fawr ar draws ALLau. Mae gan rai byrddau AI neu arweinwyr AI / trawsnewid pwrpasol, tra bod eraill yn dibynnu ar arweinwyr digidol i wneud penderfyniadau ar eu pen eu hunain. Mae rhai ALLau wedi creu polisiau penodol ac yn rheoleiddio sut mae Copilot yn cael ei ddefnyddio'n ymarferol. Nid yw eraill wedi gwneud hynny ac nid oes ganddynt fawr ddim yn ei le i fonitro'r defnydd ohono. Mynegwyd pryderon y gallai polisiau ALI wrthdaro â mathau eraill o ddeddfwriaeth fel GDPR a rheolau cadw data mewn rhai achosion. Nid yw staff rheng flaen sy'n defnyddio Copilot bob amser yn ymwybodol o ganllawiau o ran ei ddefnyddio. Mae rhai ALLau wedi caniatáu defnyddio fersiwn safonol o Microsoft ar draws y gwasanaeth - tra bod eraill wedi ei gyfyngu i ychydig o uwch realwyr ac analluogi mynediad i staff.

¹ ADSS Cymru (2025). Asesu parodrwydd timau gofal cymdeithasol i oedolion ledled Cymru i weithredu Microsoft Copilot. [Ar-lein] Ar gael ar: [Gweithredu Microsoft Copilot mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion](#) [Cyrchwyd 3 Mawrth 2026].

Roedd galwad gyffredinol ar gyrff cyhoeddus i gefnogi o ran darparu cyfarwyddyd a chyngor cyfreithiol ynglŷn â'r hyn sy'n dderbyniol o ran defnyddio AI yng Nghymru. Roedd ymwybyddiaeth ynghylch polisiâu cenedlaethol cyfredol fel [Canllaw AI ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru](#)² gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn dameidiog yn ôl y rhai a gymerodd rhan yn yr adolygiad, a adroddwyd bod dryswch o ran ble i gael cyngor a chymorth ac roedd dyblygu a negeseuon cymysg gan gyrff cenedlaethol.

Defnyddio'n ymarferol

Mae Copilot yn offeryn eang gyda chymhwysiad eang ac mae'r bobl hynny sy'n ei ddefnyddio ar gyfer swyddogaethau ehangach (fel ymchwil neu ddrafftio adroddiadau) yn ei ffafrio. Serch hynny, nid yw Copilot yn perfformio cystal ag offer sydd a mwy o ffocws ar gyfer tasgau penodol (fel trawsgrifio cyfarfodydd) fel Magic Notes. Mae cyfyngiadau gan Copilot o hyd, o ran cyfieithu i'r Gymraeg. Dywedir bod y fersiwn safonol o Copilot wedi cynyddu o ran ei ymarferoldeb, ac mae bellach bron yr un mor effeithiol â fersiynau 'E3' neu 'E5' y telir amdanynt. Mae ALLau yn nodi nad oes angen prynu trwyddedau lefel uwch i'r rhan fwyf o staff. Mae rhai ALLau yn gweithio gyda'i gilydd ar draws adrannau i greu cyfryngau pwrpasol wedi'u teilwra i bob gwasanaeth, tra bod eraill yn cyfyngu defnyddwyr i nifer fach o awgrymiadau penodol ac nid ydynt yn hyrwyddo arloesi.

Mae mwy o ALLau yn defnyddio Copilot ar gyfer swyddi uwch, tra bod Magic Notes yn cael ei ddefnyddio mwy mewn swyddi gweinyddol. Mae yna eithriadau i hyn. Mae rhai ALLau yn adrodd bod gweithwyr cymdeithasol sy'n defnyddio Copilot yn adrodd manteision sylweddol o ran cefnogi'r gwaith o ysgrifennu adroddiadau ac asesiadau.

Mae'r hyfforddiant wedi amrywio ar draws ALLau. Mae rhai defnyddwyr yn dysgu eu hunain, ac mae gan eraill grwpiau hyrwyddo a chymorth cadarn a pharhaus. Un o'r heriau yw bod angen teilwra hyfforddiant i unigolion a thimau yn ôl eu hanghenion, i ba bwrpas y maen nhw'n bwriadu ei ddefnyddio a'u hyder yn y maes digidol. Mae Magic Notes yn reddfodol tra bod Copilot yn gofyn am ddatblygu'r sgil newydd o grefftio cyfarwyddiadau a datblygu awgrymiadau.

Tystiolaeth ac Effaith

Mae sylfaen dystiolaeth yn dod i'r amlwg o ran manteision posibl Copilot wrth ymarfer yng Nghymru – mae staff sy'n defnyddio'r offeryn yn adrodd yn eang eu bod yn arbed amser a'i fod yn gwella lles, a bod ganddynt fwy o amser i'w dreulio gyda'r bobl y maent yn eu cefnogi. Fodd bynnag, gall Copilot wneud gwallau, ac mae'n rhaid i ymarferwyr wirio cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan AI. Nid yw ALLau yn rhannu'r hyn y maen nhw yn ei ddysgu, gyda'i gilydd y tu hwnt i sgysiau anffurfiol, ac i raddau helaeth, nid ydynt yn ymwybodol o dystiolaeth i gefnogi ymrwymadau ariannol mwy.

Er bod staff sy'n defnyddio Copilot yn dweud ei fod yn cynorthwyo'r ymarfer a'i fod yn cyd-fynd â gwerthoedd proffesiynol, roedd rhai pryderon am ganfyddiad y cyhoedd am ddefnyddio AI. Nid oes dystiolaeth gadarn y bydd AI yn disodli swyddi ar hyn o bryd. Dyma oedd y pryder mwyaf cyffredin yng ngham un. Fodd bynnag, mae un ALL wedi gallu lleihau eu swyddi gweinyddol o ryw draean ers defnyddio Copilot ar gyfer cyfarfodydd.

Rhwystrau a Heriau

² CACI ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru (2025). Canllaw AI ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. [Ar-lein ar] Ar gael ar: [Canllaw AI ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru – Gofal Cymdeithasol Cymru - Ymchwil, Data ac Arloesi](#) [Cyrchwyd 12 Mawrth 2026].

Mae'r prif rwystrau a heriau a nodwyd yn yr adolygiad cyflym yn cynnwys:

- Cyllid a diffyg sylfaen dystiolaeth glir ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion
- Ffactorau llywodraethu (goddef risg, canllawiau a pholisïau)
- Dryswch ynghylch opsiynau trwyddedu ac addasrwydd ar gyfer rolau penodol
- Heriau o ran seilwaith digidol

Galluogwyr

O ran ALLau, mae'r prif alluogwyr yn cynnwys:

- Dulliau amlddisgyblaethol a chydweithio ar draws meysydd gwasanaeth gan gynnwys Digidol, AD, arweinwyr y gweithlu, rheolwyr a staff rheng flaen yn cydweithio
- Arweinwyr penodedig
- Targedu buddsoddiadau – dewis y trwyddedau o'r lefel isaf a'r niferoedd lleiaf i ddiwallu anghenion gwasanaethau
- Sicrhau bod SharePoint ar waith, ac addasu gosodiadau yn seiliedig ar anghenion lleol

Mae galluogwyr cenedlaethol yn cynnwys:

- Darparu cyngor cyfreithiol, gwybodaeth ac arweiniad cyfredol
- Dysgu ar y cyd a fforymau i greu a datrys problemau

Argymhellion (crynodeb)

Mae manylion llawn yr argymhellion i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

I Sefydliadau Cenedlaethol:

- 1) Hwyluso Rhwydwaith Hyrwyddwyr AI Cenedlaethol
- 2) Datblygu sylfaen dystiolaeth a hwb dysgu canolog
- 3) Rhoi arweiniad a chyngor cyfreithiol ar ddefnyddio AI mewn ALLau a matrices sy'n manylu ar y gwahanol gynigion trwyddedu i gefnogi'r dasg o ddewis y cynnyrch cywir
- 4) Hyrwyddo cysondeb ar draws sefydliadau cyhoeddus

I ALI:

I ystyried yr arfer da a'r canllawiau presennol sy'n cael eu datblygu yng Nghymru, ystyrir yr argymhellion canlynol – I ALI:

1. **Bennu arweinydd/arweinwyr rhaglen** i oruchwylio arloesi a thrawsnewid y system gydag offer Copilot / AI, ac i sicrhau bod trefn lywodraethu gref yn cael ei sefydlu ochr yn ochr â'r gwaith o ddatblygu canllawiau a pholisïau cynhwysfawr o ran ei ddefnyddio.
2. **Defnyddio dulliau amlddisgyblaethol.** Er mwyn sicrhau bod arweinwyr yn y maes Digidol, AD a thimau datblygu'r gweithlu yn gweithio gyda rheolwyr ac ymarferwyr gofal cymdeithasol i weithredu offer Copilot / AI a'i deilwra mewn gwahanol leoliadau a rolau
3. **Prynu trwyddedau yn strategol** yn seiliedig ar angen, a chofio bod y drwydded safonol yn aml yn ddigon, tra bydd angen y drwydded uwch ar y rhai sy'n defnyddio swyddogaethau ehangach.
4. **Cynnig cefnogaeth a hyfforddiant parhaus i staff** sy'n defnyddio Copilot, a monitro'r hyn a ddefnyddir i sicrhau bod trwyddedau a brynwyd yn cael eu defnyddio'n ddiogel ac yn effeithlon.

Sicrhau bod hyfforddiant AI yn rhan o asesiadau anghenion hyfforddi blynyddol ac yn cysylltu â chynlluniau gweithlu'r ALLau.

5. **Gwerthuso effaith i sefydlu sylfaen dystiolaeth** o ran yr hyn sy'n gweithio, a dysgu gan awdurdodau eraill trwy rhannu'r dysgu a chydweithredu.

Cyflwyniad

Cefndir

Mae potensial i'r datblygiadau cyflym yn y byd deallusrwydd artiffisial, newid y ffordd y mae gwasanaethau yn gweithredu mewn cymdeithas fodern, a hynny mewn ffordd radical. O ran gwasanaethau cyhoeddus, mae'r datblygiadau hyn yn golygu cyfleoedd a heriau. Yng Nghymru, mae ALLau wedi bod yn archwilio i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2024, cynhaliodd ADSS Cymru adolygiad ledled Cymru o barodrwydd awdurdodau lleol i weithredu Microsoft Copilot mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, gyda chyllid grant gan CLILC. Cafodd Copilot ei ddewis am mai dyma'r offeryn AI mwyaf hygyrch ar adeg yr astudiaeth, am fod pob AI yn defnyddio Microsoft Office 365.

Roedd cam un gwaith Parodrwydd am Copilot yn cynnwys asesiadau a gwblhawyd gydag ALL i ganfod parodrwydd y gweithlu a'r parodrwydd digidol. Paratowyd adroddiad cenedlaethol yn crynhoi'r canfyddiadau ochr yn ochr â fideos hyfforddi a thiworialau byr. Gellir cael hyd i'r rhain ar [wefan ADSS](#)¹.

Yn ystod cam un, nodwyd y negeseuon allweddol canlynol:

- Roedd gan y rhan fwyaf o ALLau y seilwaith digidol sylfaenol ar waith i fynd ati i fabwysiadu Copilot, ond roedd angen gweithgareddau ychwanegol i ganfod parodrwydd
- Roedd brwdfrydedd dros botensial AI, ond ychydig o ALLau oedd yn ei ddefnyddio yn ymarferol. Roedd rhai cynlluniau peilot cynnar yn mynd rhagddynt
- Mynegodd y gweithlu rywfaint o bryder ynghylch materion moesegol a phreifatrwydd / GDPR
- Mynegodd y cyfranogwyr yr angen i gefnogi'r gwaith o'i weithredu gyda hyfforddiant cadarn, rhwydwaith parhaus a chefnogaeth hyrwyddwyr.

Adolygiad Gweithredu Microsoft Copilot: Cam Dau

Cynhaliwyd yr adolygiad cyflym rhwng Rhagfyr 2025 a Mawrth 2026 ac mae'n dilyn y gwaith cychwynnol a gafodd ei wneud. Mae nodau cam dau a gafodd ei, yn cynnwys:

- Deall sut mae ALLau wedi defnyddio Copilot mewn timau gofal cymdeithasol i oedolion ers yr adolygiad cyntaf
- Dysgu sut y gall sefydliadau cenedlaethol gefnogi ALLau orau i fod yn barod i weithredu Copilot, a deall y rhwystrau parhaus o ran ei weithredu
- Canfod sut mae ALLau wedi mynd ati i'w weithredu a hoelio'r dysgu a'r arfer da, er mwyn ei fabwysiadu'n ehangach

Cyd-fynd â gweithgareddau digidol ac AI ehangach yng Nghymru

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi [fframwaith DiSC Cymru](#) dan Biler 'Dechrau Cadarn'. Mae'r adolygiad yn ymgymryd â gwaith darganfod i ganfod arferion a chyfleoedd presennol, sy'n cyd-fynd â'r garreg filltir 'Adnabod eich gwasanaeth'. Mae hefyd yn cefnogi deall sgiliau digidol a sgiliau'r gweithlu, hyder a gallu am ei fod yn ymwneud â defnyddio Copilot / AI, sy'n elfen allweddol o'r garreg filltir 'Adnabod eich pobl a sgiliau'. Mae'n gwella gwybodaeth am atebion AI ymhellach i awtomeiddio tasgau arferol, gwella gwasanaethau a ddarperir, a chefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau sy'n cael eu gyrru gan ddata, sy'n amcan o dan 'Adnabod eich data'.

Mae Swyddfa Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am AI, hefyd yn cynnal adolygiad ar yr offer trawsgrifio sy'n cael ei ddefnyddio yn y maes gofal cymdeithasol. Gellir dod o hyd i fwy am y Swyddfa AI, newydd³ trwy ddilyn y ddolen.

Trwy dargedu'r ymgysylltu a chasglu tystiolaeth, mae'r adolygiad hwn yn archwilio i ddefnyddio Copilot yn ymarferol, i ddeall y sylfaen dystiolaeth, yn ogystal â sgiliau ac anghenion staff, yr effaith ar ymarfer a lles staff.

Mae'r prosiect yn cefnogi'r [Strategaeth Ddigidol i Gymru](#)⁴ yn uniongyrchol, drwy barhau â'r gwaith ar asesu ac adeiladu parodrwydd digidol timau gofal cymdeithasol i oedolion yn yr ALLau yng Nghymru.

Trwy ymgysylltu a chasglu tystiolaeth, mae'r prosiect yn helpu timau gofal cymdeithasol oedolion yr ALLau i nodi sut y gallant ymgorffori cynhwysiant digidol, ac mae'n sicrhau bod trawsnewid digidol o fudd i ALLau ar eu taith ddigidol, ac nid yn unig y rhai sydd eisoes wedi aeddfedu'n ddigidol.

Mae'r prosiect yn cyd-fynd â [Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol](#) trwy ganolbwyntio ar welliannau hirdymor o ran pa mor barod yw'r gweithlu yn ddigidol ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion, atal allgáu digidol a phrinder yn y gweithlu, ac integreiddio ymdrechion ar draws timau digidol, y gweithlu a thimau llywodraethu. Mae'n cynnwys ystod eang o randdeiliaid, mae'n cefnogi cydweithio, ac yn cyfrannu at nodau llesiant y Ddeddf trwy hyrwyddo Cymru sy'n ffyniannus, yn wydn ac yn iachach trwy wella gallu digidol, lleihau anghydraddoldebau, a pharhau i wella gwasanaethau.

Trwy barhau i nodi'r bylchau mewn sgiliau ac anghenion cymorth, mae'n galluogi gwasanaethau i gael eu darparu'n fwy effeithiol, effeithlon a theg. Mae'n cyd-fynd â chenhadaeth y Strategaeth sef gwasanaethau digidol, cynhwysiant digidol, a sgiliau digidol, ac mae'n meithrin dulliau cydweithio a dysgu ar y cyd ar draws y sector.

³ Llywodraeth Cymru (2025). Datganiad Ysgrifenedig: Deallusrwydd Artiffisial a Thrawsnewid Digidol yng Ngwasanaethau Cyhoeddus Cymru. [Ar-lein] Ar gael ar: [Datganiad Ysgrifenedig; Deallusrwydd Artiffisial a Thrawsnewid Digidol yng Ngwasanaethau Cyhoeddus Cymru \(18 Medi 2025\) | LLYW.CYMRU](#) [Cyrchwyd 22 Mawrth 2026].

⁴ Llywodraeth Cymru. (2023). Strategaeth ddigidol a data ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. [Ar-lein] Ar gael ar: [Strategaeth ddigidol a data ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru](#) [Cyrchwyd 1 Mawrth 2026].

Methodoleg

Llywodraethu

Mae'r gwaith hwn yn rhan o biler "[Dechrau Cadarn](#)" rhaglen DiSC. Darparwyd adroddiadau rheolaidd ar yr uchafbwyntiau i CLILC ac ADSS Cymru i'w rhannu o fewn y rhwydweithiau. Bydd canfyddiadau'r adroddiad hwn yn mynd tuag at gefnogi'r gwaith o gyflawni'r piler a'r agwedd genedlaethol tuag at dechnolegau digidol.

Aeth uwch reolwr o ADSS Cymru ati i gefnogi'r prosiect drwy'r gydol yr amser, gan fynychu rhai o'r cyfweiliadau a rhoi ei farn fel Cyfarwyddwr i lywio'r dadansoddiad a'r adroddiad terfynol. Mae ADSS Cymru yn gweithio'n agos gyda CLILC, i roi cyngor ac arweiniad ar ystod o brosiectau DiSC. Cafodd uwch arweinwyr yn y maes gofal cymdeithasol eu secondio'n rhan-amser i roi gwybodaeth ar lefel strategol a gweithredol ar effaith newidiadau i gymorth digidol yn y maes gofal cymdeithasol.

Yn ogystal, mae ADSS Cymru yn cyflawni dau brosiect ar lefel darganfod. Mae'r prosiect Copilot hwn yn un, ac mae'r llall, prosiect ASPIRE, yn cysylltu â philer Dyfeisgarwch Disglair. Mae'n datblygu ap wedi'i gynllunio ar y cyd â phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal, i ddarparu un hwb digidol hawdd ei ddefnyddio lle gall pobl ifanc gael hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf a chymorth dibynadwy. Mae disgwyl i'r ddau brosiect gyfleu'r canfyddiadau ar ddiwedd mis Mawrth .

Yn dilyn cyfres o weithgareddau ymgysylltu, cynhaliwyd dadansoddiad thematig i asesu cynnydd ALLau o ran defnyddio Microsoft Copilot. Isod mae mwy o fanylion am y gweithgareddau hyn.

Gweithgareddau Ymgysylltu

Cynhaliwyd sawl gweithgaredd ymgysylltu yn ystod yr adolygiad. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Dosbarthu arolwg trwy arweinwyr Copilot ALLau, penaethiaid gwasanaeth a Chyfarwyddwyr a enwebwyd yn flaenorol, gan annog cyfranogiad ar draws lluo o swyddi
- Cynnal cyfweiliadau lled-strwythuredig dros Microsoft Teams gyda chyfranogwyr a hunanddetholwyd
- Arolwg wedi ei dargedu i gasglu barn ymarferwyr rheng flaen, a oedd wedi cymryd rhan mewn grwpiau ffocws yn ystod cam cyntaf y gwaith

Fe wnaeth cyfanswm o 17 o'r 22 ALI gymryd rhan yn yr adolygiad. Un o nodau'r adolygiad hwn oedd sicrhau bod adolygwyr yn ymgysylltu ag ALLau a oedd wedi gwrthod asesiadau parodrwydd digidol yng Nghymru un. Siaradodd adolygwyr â 3 o'r 4 ALI a oedd wedi cynnal eu hasesiadau cam un eu hunain, a rhoesant ddiweddariadau manwl am y ffordd y maen nhw'n defnyddio Copilot. Roedd pob un o'r 22 ALI wedi cymryd rhan mewn asesiadau parodrwydd y gweithlu yn ystod cam un. Fe wnaeth pobl ag ystod eang o rolau gymryd rhan n=48.


Arolwg – Microsoft Copilot yn yr ALLau: Cam Dau

Dosbarthwyd yr arolwg drwy arweinwyr Copilot a enwebwyd yn flaenorol, penaethiaid gwasanaeth a Chyfarwyddwyr, i annog cyfranogiad ar draws lluo o swyddi. Trafododd y themâu canlynol:

- Parodrwydd canfyddedig
- Ymwybyddiaeth o weithgareddau diweddar sy'n gysylltiedig â gweithredu Microsoft Copilot
- Dysgu, rhwystrau a chyfleoedd
- Arolwg i nodi pa gamau gweithredu fyddai'n fwyaf defnyddiol (yn seiliedig ar argymhellion adroddiad y llynedd)

Daeth 30 o ymatebion i law. Roedd hyn yn cynrychioli 14 ALI, sy'n cynnwys 6 o'r 7 rhanbarth yng Nghymru. Roedd amrywiaeth dda o ran swyddi'r ymatebwyr, fel y dangosir isod:

Siart 1: Rolau'r Rheini a Ymatebodd i'r Arolwg



Mae canfyddiadau manwl yn dilyn yr arolwg wedi eu crynhoi trwy gydol yr adroddiad ochr yn ochr â'r wybodaeth a gafwyd yn dilyn y gweithgareddau ymgysylltu eraill.

Arolwg – Safbwyntiau Ymarferwyr

Ymatebwyr a hunan-ddetholwyd o blith grŵp o 89 ymarferydd rheng flaen a gymerodd ran yng ngrwpiau ffocws Copilot Cam Un yn 2024-25. Roedd grwpiau ffocws wedi archwilio sut y gallai Copilot effeithio ar ymarfer, a gweithiodd cyfranogwyr gydag arweinwyr digidol i ddatblygu awgrymiadau ieithyddol sy'n mynd i'r afael â rhai o'r materion allweddol a godwyd. Cafodd yr arolwg ei ledaenu 12 mis ar ôl gwaith cam un, ac ailadroddwyd cwestiynau i fesur unrhyw newidiadau o ran safbwyntiau neu effaith.

Aeth yr arolwg i'r afael â'r themâu a ganlyn:

- Effaith ar ymarfer
- Ystyriaethau moesegol a phroffesiynol
- Yr hyn sy'n rhwystro rhoi Copilot ar waith ac yn ei alluogi

Ymatebodd 7 ymarferydd i'r arolwg, felly'n cynrychioli 5 ALI. Roedd y cyfranogwyr i gyd yn ymarferwyr rheng flaen mewn timau gwaith cymdeithasol i oedolion. Roedd rolau'r ymatebwyr yn cynnwys cynorthwydd gwaith cymdeithasol, gweithiwr cymdeithasol, uwch ymarferydd a rheolwr tîm.

Themâu


Er mai cyfradd ymateb fechan a gafwyd, mae canfyddiadau Cam 2 yn dangos bod ymarferwyr yn cefnogi Copilot a'r mesurau arbed amser clir a gydnabuwyd ar draws tasgau gweinyddol allweddol yn y maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Adroddodd llawer o ymatebwyr effeithiau cadarnhaol ar ymarfer proffesiynol a mwy o allu i weithio'n uniongyrchol. Fodd bynnag, mae bylchau yn parhau o ran hyfforddiant, integreiddio systemau a llywodraethu lleol, ochr yn ochr â phryderon parhaus am

GDPR, cywirdeb a'i ddefnydd moesegol. Er bod manteision posibl Copilot yn amlwg, mae angen rhagor o waith i sicrhau ei fod yn cael ei rhoi ar waith mewn ffordd gyson, ddiogel, a gyda chefnogaeth dda.

Cyfweliadau

Fe wnaeth 18 o bobl gymryd rhan mewn cyfweliadau, felly'n cynrychioli 9 ALI. Mae Siart 2 yn dangos y rolau a gynrychiolwyd. Roedd llawer o'r rheini a gymerodd rhan yn y cyfweiliad hefyd wedi llenwi'r arolwg.

Siart 2: Rolau'r Rheini a Gymerodd Rhan yn y Cyfweiliad



Agwedd

Mae'r adolygiad hwn yn cyfleu canlyniadau arolygon, trawsgrifiadau o gyfweliadau a nodiadau ansoddol a gofnodwyd yn ystod trafodaethau. Dyma'r themâu a ddaeth i'r amlwg ar draws yr holl weithgareddau ymgysylltu:

- Parodrwydd a Chynnydd
- Llywodraethu a Rheoli Risg
- Defnyddio Copilot yn Ymarferol
- Diwylliant y Gweithlu ac Ystyriaethau Moesegol
- Ystyriaethau Technegol
- Tystiolaeth ac Effaith
- Rhwystrau a Heriau
- Galuogwyr


Crynodeb o'r Canfyddiadau

Parodrwydd a Chynnydd

Bu newid mawr mewn parodrwydd a chynnydd wrth fabwysiadu Microsoft Copilot yn y 12 mis diwethaf. Mae nifer o ALLau wedi symud o chwilfrydedd ac archwilio cynnar ac erbyn hyn maent wedi ei fabwysiadu. Mae rhai sefydliadau wedi dewis defnyddio offer AI eraill yn ogystal â Copilot, neu yn ei le.

Defnyddiodd yr arolwg yr un system goleuadau traffig â'r asesiadau parodrwydd gwreiddiol, a dewisodd ymatebwyr y categori orau yn eu barn nhw, i gynrychioli sefyllfa bresennol eu ALL. Roedd y canlyniadau fel a ganlyn:


Siart 3: Lefelau Parodrwydd Copilot yn Gyffredinol a nodwyd gan y rhai a Ymatebodd i'r Arolwg



Coch: Nid yw'r ALL yn barod am newid. Mae rhwystrau sylweddol a fyddai'n rhwystro'r gallu i fabwysiadu Microsoft Copilot

Ambr: Mae'r ALL rhywfaint yn barod am newid. Mae rhai heriau, ond gyda chymorth ac adnoddau ychwanegol, gellir mynd i'r afael â nhw i hwyluso'r gwaith o fabwysiadu Microsoft Copilot

Gwyrdd: Mae'r ALL yn gwbl barod am newid. Mae seilwaith digidol cadarn ar waith, mae staff wedi'u hyfforddi'n dda; maent yn agored i dechnoleg newydd ac mae cynllun clir i roi Microsoft Copilot ar waith.



Yn yr un modd ag yng Ngham Un, mae'r mwyafrif o ALLau yn nodi eu bod ar y lefel ambr o ran parodrwydd. Yn gyffredinol, mae'r rhai yn y categori ambr yn dweud eu bod yn defnyddio Copilot yn ymarferol a hynny'n barhaus, gyda rhywfaint o effaith. Mae'r rhan fwyaf yn y camau gweithredu cynnar. Adroddir amrywiaeth eang o ran y dull a gymerwyd tuag at roi'r offeryn ar waith a'i ddefnyddio'n barhaus. Mae hyn yn cael ei archwilio trwy gydol yr adroddiad. O'r ddau ALL sy'n nodi eu bod ar y lefel goch, nododd un eu bod wedi dewis offer AI eraill yn dilyn cyfnod treialu am nad oedd yn ystyried bod Copilot yn addas. Nododd y llall mai ychydig iawn o drwyddedau sydd ganddynt yn yr ALL, ac nid oedd un yn y maes gofal cymdeithasol. Adroddodd y rhai sy'n ystyried eu hunain ar y lefel 'gwyrdd' sefyllfaoedd tebyg i'r rhai yn y grŵp 'ambr', sef yr ALLau hynny sy'n defnyddio Copilot i raddau amrywiol mewn rhai gwasanaethau, ond yn dal i fod yn eu camau gweithredu cynnar heb gynlluniau i'w gyflwyno'n eang.

Parodrwydd Digidol

Yng ngham un, nodwyd bod gan y rhan fwyaf o ALLau y seilwaith digidol sylfaenol ar waith i gefnogi'r gwaith o fabwysiadu Copilot, ond bod angen gweithgareddau ychwanegol o ran parodrwydd. Yn ystod yr adolygiad hwn, mae arweinwyr digidol yn dweud bod amrywiaeth o ran sut maen nhw wedi symud ymlaen â gweithgareddau parodrwydd. Nododd un ALL eu bod yn defnyddio swyddogaethau archwilio gweinyddol Copilot i fonitro sut mae'r offeryn yn cael ei ddefnyddio. Nododd rhai eu bod yn rheoli pa ffeiliau y gall yr offeryn eu cyrchu, ar sail y maes gwasanaeth, er bod yr ALLau hynny heb fynd mor bell â swyddogaethau labelu manwl. Roedd y rhan fwyaf o arweinwyr digidol yn teimlo na fyddai'n ddefnyddiol mynd ar drywydd label 'unwaith i Gymru' oherwydd dewisiadau lleol o ran sut y byddent am drefnu'r ffeiliau. Mae rhai ALLau yn

cyfyngu ar ba gyfryngau / awgrymiadau y gellir eu defnyddio ac maent yn cyfyngu'n llym ar sut y gall ymarferwyr ddefnyddio'r dechnoleg. Mae eraill yn annog arbrofi ac arloesi mwy agored, gan weithio gyda defnyddwyr i greu cyfryngau ac awgrymiadau newydd.

Roedd argymhelliad yng ngham un i ALLau brynu nifer fach o drwyddedau Microsoft E5 ar gyfer arweinwyr technegol, a defnyddio trwyddedu E3 neu drwyddedau fersiwn safonol, is o ran ymarferoldeb, ar gyfer staff rheng flaen. Croesawyd hyn yn gyffredinol gan arweinwyr digidol, ond nid oedd un ALI wedi mynd ar drywydd hyn oherwydd eu blaenoriaeth ar hyn o bryd yw symud i System Rheoli Achosion newydd a newidiadau mwy yn y dirwedd ddigidol. Nododd un arall eu bod yn dal i archwilio'r ystod eang o offer AI cyn penderfynu pa drwydded i'w phrynu. O ran gweithredu, mae'r rhan fwyaf o ALLau yn dal i deimlo eu bod yn y camau cynnar, felly nid ydynt eto wedi cael y cyfle i fanteisio ar botensial y dechnoleg yn llawn.

Mae rhai arweinwyr digidol yn gweithio y tu ôl i'r llenni heb unrhyw ryngweithio ffurfiol â rheolwyr gofal cymdeithasol a defnyddwyr AI. Mae eraill yn adrodd eu bod yn gweithio'n agos iawn gyda defnyddwyr a gwasanaethau i addasu sut mae AI yn cael ei ddefnyddio orau i weddu i anghenion pob gwasanaeth. Mae'r rhai sy'n gweithio'n agosach gyda'i gilydd wedi nodi bod gan bob gwasanaeth ofynion gwahanol o ran sut maen nhw'n defnyddio'r offeryn.

Adroddodd y rhai a gynhaliodd eu hasesiadau parodrwydd eu hunain yn ystod cam un, sefyllfaoedd tebyg i'r rhai a gymerodd ran yn yr asesiadau dan arweiniad STABLE y llynedd. Roedd barn gyffredin gan arweinwyr digidol nad yw asesiadau parodrwydd cynorthwyedig mor ddefnyddiol â rhai annibynnol, oherwydd cysylltiadau rhwng gwerthwyr a Microsoft, am fod potensial o fuddiannau masnachol. Mae arweinwyr digidol lleol hefyd yn cael eu hystyried yn arbenigwyr o ran anghenion a dymuniadau eu sefydliad. Waeth pa fath o asesiad a gynhaliwyd, mae'n ymddangos bod yr un amrediad o weithgareddau wedi mynd rhagddynt drwy'r arweinwyr digidol.

Parodrwydd y Gweithlu

Yng ngham un, roedd gan yr ALLau hynny a oedd wedi mynegi eu bod yn teimlo'n fwy parod, yr un nodweddion cyffredin, yn cynnwys

- Cefnogaeth uwch-arweinwyr
- Gweithgorau
- Arweinwyr/hyrwyddwyr ar gyfer y rhaglen

Mae'r duedd hon wedi parhau dros y 12 mis diwethaf. Mae gwahaniaeth amlwg yn y parodrwydd rhwng ALLau sydd wedi cymryd dull mwy ad hoc o weithredu, a'r rhai sydd wedi nodi arweinwyr yn y swydd, gyda'r olaf ymhellach ar y blaen o ran ei ymgorffori'n ymarferol.

Mae lefel uchel o frwdfrydedd dros AI ymhlith y gweithlu yn parhau, fodd bynnag, yn ymarferol, mae rhai ymarferwyr rheng flaen yn mynegi eu bod yn teimlo'n llai hyderus gyda Copilot nag offer AI eraill fel Magic Notes oherwydd y lefel uwch o sgiliau a dealltwriaeth sydd ei angen i ddefnyddio Copilot i 'grefftio' awgrymiadau wrth ymarfer.

Mae Tabl 1 yn dangos crynodeb o bryderon rhai â gymerodd rhan mewn grŵp ffocws a nodwyd yng ngham 1 a barn a fynegwyd yng ngham 2 gan yr ymarferwyr rheng flaen hynny sydd â thrwyddedau, o ran defnyddio Copilot.

Tabl Un: Pryderon a fynegwyd am Copilot yn 2024 o gymharu â'r Farn Gyfredol yn 2026

Pryderon am Copilot (2024-25) wedi'u rhestru yn ôl yr uchaf i'r isaf	Barn gyfredol am Copilot (2026) yn ôl y rhai a gymerodd rhan yn yr adolygiad
1. Diffyg dealltwriaeth neu hyfforddiant	Ymatebion cymysg – mae rhai wedi cael hyfforddiant sylfaenol, ond mae'r rhan fwyaf yn dweud ei fod yn fater o ddysgu eu hunain. Mynegodd y rhai sydd â thrwyddedau eu bod yn teimlo'n fwy hyderus ar ôl defnyddio Copilot yn ymarferol.
2. Effaith ar ansawdd gwneud penderfyniadau a dadansoddi	Mae ALLau yn adrodd bod uwch reolwyr yn tueddu i ddefnyddio Copilot at ddibenion ymchwil, strategaeth a dadansoddi, tra bod ymarferwyr rheng flaen yn tueddu i'w ddefnyddio ar gyfer tasgau dadansodol mwy ymarferol. Roedd tystiolaeth gyfyngedig yn ystod yr adolygiad hwn ei fod wedi cael ei ddefnyddio i ddylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau
3. Preifatrwydd a diogelwch data	Nid oedd unrhyw un o'r ymarferwyr rheng flaen a gymerodd rhan yn yr arolwg yn gallu cadarnhau a oedd gan eu ALI bolisiau penodol ar waith ynghylch defnyddio AI. Nododd dau fod canllawiau anffurfiol ar waith. Roedd hanner yr ymatebwyr yn teimlo nad oes cyfarwyddyd mewnol.
4. Ystyriaethau moesegol	<p>Mae'r rhan fwyaf o ALLau yn adrodd eu bod yn mabwysiadu 'cynnwys person yn broses' h.y. sicrhau bod unrhyw gynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan AI yn cael ei wirio gan ymarferydd, sydd yna'n berchen ar y gwaith, fel yr argymhellir yn yr adroddiad cam un.</p> <p>Mae aelodau o'r cyhoedd / gweithwyr proffesiynol eraill yn cael gwybod os ydyn nhw'n cael eu recordio ac mae hyn fel arfer yn cael ei dderbyn, er bod rhai sylwadau am hyder y cyhoedd yn parhau i fod ar ei hôl hi o ran ymddiried mewn proses sy'n defnyddio AI.</p> <p>Ymddengys mai'r farn yn gyffredinol, pan gaiff ei ddefnyddio fel offeryn i gefnogi swyddogaethau gweinyddol, y gall rhyddhau'r ymarferydd i dreulio mwy o amser gyda'r person sy'n cael cymorth, gan arwain at ofal o ansawdd gwell.</p>
5. Newidiadau posibl i fy rôl	Mae'r rheini ar y rheng flaen sy'n defnyddio Copilot yn adrodd bod llai o amser yn cael ei dreulio ar weithgareddau gweinyddol a mwy o amser yn cael ei dreulio gyda phobl maen nhw'n eu cefnogi, a bod prosesau ysgrifennu / adolygu adroddiadau yn haws. Nid oes unrhyw un yn adrodd effeithiau negyddol. Nododd un ALI nad ydynt wedi llenwi rolau gweinyddol oedd yn wag o ganlyniad effeithiau cadarnhaol offer AI ar leihau beichiau gweinyddol.
6. Colli sgiliau yn fy rôl	Ni adroddodd yr un o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo eu bod wedi colli sgiliau.

Nododd cyfranogwyr fod y gweithlu bellach bron yn gyffredinol yn derbyn ac yn croesawu defnyddio offer AI, gyda rhai eithriadau. Mae rhai pryderon yn parhau mewn rhai gwasanaethau ynghylch cymhwysedd AI mewn lleoliadau penodol fel gwrandawiaidau llys neu achosion amddiffyn

plant, er, mae rhai ALLau yn defnyddio Copilot yn effeithiol yn y meysydd hyn.

Mae Copilot (ac offer AI eraill) yn ennyn mwy o hyder ac mae mwy yn ei dderbyn ymhlith y gweithlu. Mae parodrwydd yn parhau i fod yn anghyson yn ôl yr agwedd sydd gan sefydliadau tuag at ei fabwysiadu, gyda chyfyngiadau'n deillio o uwch-arweinwyr a thimau digidol o ran goddefgarwch a pharodrwydd i gymryd risgiau a safbwyntiau o ran defnyddio AI.

Mae'r Prosiect Darganfod 'AI yn y Gyfraith' yn adrodd i biler Dyfeisgarwch Disglair DiSC – mi fydd yn helpu i egluro defnyddio AI mewn modd derbyniol yn y Llysoedd.

Llywodraethu a Rheoli Risg

Mae aeddfedrwydd o ran llywodraethu yn amrywio'n sylweddol. Mae gan rai ALLau fyrdau AI ar waith ac mae polisïau a chanllawiau'n dod i'r amlwg ynglŷn â'i ddefnyddio. Mae eraill yn dweud eu bod yn wynebu gwrthdaro o ran y cyngor gan TG, llwybrau cymeradwyo tameidiog, neu lefelau uchel o osgoi risg, yn enwedig o ran diogelu data, gwaith llys, a pholisïau cofnodi. Mae pryder y bydd pob ALI yn cynhyrchu cyngor sydd fymryn yn wahanol mewn perthynas â materion fel polisïau cadw data, ac nid yw'n glir beth fyddai hyn yn ei olygu pe bai'n cael ei herio yn y llys. Yn yr un modd, mae gwybodaeth ynghylch pa mor hir y mae recordiadau a thrawsgrifiadau yn cael eu cadw yn amrywio o ALI i ALI ac mewn ambell i achos nid ydynt yn unol â deddfwriaeth GDPR. Nid yw rhai asiantaethau allanol yn caniatáu defnyddio offer AI mewn cyfarfodydd, gan gynnwys rhai sefydliadau heddlu a'r GIG – mae hyn yn arwain at gymhlethdodau pan fyddant yn mynd i gyfarfodydd amlasiantaeth.

Adroddodd ymarferwyr a oedd yn rhan o'r arolwg, ddiffyg ymwybyddiaeth o ran llywodraethu yn eu ALI. Nid oedd yr un ohonynt yn gallu cadarnhau a oedd polisïau penodol ar waith. Roedd tri o'r ymatebwyr yn ansicr a yw'r rhai sy'n cael mynediad at ofal a chymorth yn gwybod bod Copilot yn cael ei ddefnyddio.

Mynegodd uwch arweinwyr a gafodd eu cyfweld, mwy o ddealltwriaeth o lawer am sefyllfaoedd yr ALI o ran llywodraethu. Mynegodd llawer o arweinwyr fod AI yn dal i fod yn ei gamau cynnar ac yn esblygu'n gyson, sy'n golygu bod cymeradwyo polisïau sy'n dod i'r amlwg yn her am fod y dirwedd yn newid.

Ymddengys bod goddefgarwch risg corfforaethol yn ffactor hanfodol o ran lefel y llywodraethu sydd ar waith. Mae rhai ALLau yn cyfyngu'n gryf ar ddefnyddio gyda chaniatâd sy'n cael ei arwain gan TG, tra bod eraill yn annog arloesi ac arbrofi agored. Mae rhai yn mynnu bod rheolwyr unigol yn prynu trwyddedau a gwneud penderfyniadau ynghylch pwy sy'n gymwys, tra bod eraill wedi datgloi mynediad yn gyffredinol ar draws grwpiau staff.

Mae'r rhai a gymerodd rhan yn yr adolygiad yn sôn am ddryswch ynghylch y seilwaith cenedlaethol tameidiog sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran AI a thechnoleg ddigidol. Nid yw'n glir pa rôl sydd gan wahanol asiantaethau cenedlaethol o ran goruchwyllo a rhoi arweiniad, ac mae yna deimlad bod llawer o ymdrech yn cael ei ddyblygu. Mae llawer o gyfranogwyr yn adrodd eu bod yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn nifer o grwpiau / adolygiadau / arolygon sy'n debyg o ran themâu, ac mae diffyg dealltwriaeth o ran sut mae cyrff cenedlaethol yn gweithio gyda'i gilydd.

Ar draws yr holl awdurdodau, mae **galw cyffredinol am ganllawiau cenedlaethol cyson**, gan gynnwys:

- Cyngor cyfreithiol cenedlaethol
- Safonau a disgwyliadau gofynnol ynghylch defnyddio AI
- Rheolau clir ar ddefnyddio AI a pha mor dderbyniol ydyw yn y llys (ar waith)

- Eglurder a chytundeb ar draws gwasanaethau cyhoeddus a chyrrff cenedlaethol ynghylch defnyddio AI yn ymarferol, a chytundebau rhwng asiantaethau o ran sut maen nhw'n ei ddefnyddio mewn cyfarfodydd ar y cyd, wrth rannu gwybodaeth ac o fewn timau amlddisgyblaeth.
- Ystyried creu fframwaith caffael cenedlaethol ar gyfer AI i gefnogi'r cam i ddefnyddio cwmnïau 'dibynadwy' ac osgoi dyblygu prosesau trwy allu 'alw ar' ddarparwyr priodol ar gyfer anghenion AI gwahanol. Mae prosiect ar y gweill o dan biler 'Datblygiad Arloesol' rhaglen DiSC sy'n ystyried hyn. Mae amcanion y prosiect yn cynnwys,

Deall, tystiolaeth a phrofi'r heriau sy'n wynebu Awdurdodau Lleol yng Nghymru a darparwyr gofal cymdeithasol annibynnol wrth gaffael offer a gwasanaethau digidol yn y sector gofal cymunedol, gofal cymdeithasol.

Archwilio a yw'r systemau caffael presennol yn cynnig gwerth

Nodi cyfleoedd i wella

Yn gryno, o'i gymharu â gweithgareddau cam un, mae mwy o ALLau bellach yn datblygu polisïau AI penodol, ac mae gan y mwyafrif grwpiau neu fyrddau digidol i oruchwylio'r datblygiadau. Fodd bynnag, mae ALLau eraill ar ei hôl hi ac yn priodoli hyn i ddiffyg eglurder gan gyrrff cenedlaethol neu lefelau is o oddefgarwch o ran y risgiau corfforaethol. Mae ymwybyddiaeth o bolisïau AI yn lleol yn amrywio ac mae'n ymddangos yn isel ymhlith ymarferwyr rheng flaen o'i gymharu ag uwch reolwyr, sy'n awgrymu bod angen cyfleu disgwyliadau yn glir â deiliaid trwydded i ddeall 'defnydd derbyniol'.

Defnyddio Copilot yn Ymarferol

Roedd adolygiad cam un yn canolbwyntio'n benodol ar dimau gofal cymdeithasol i oedolion yn ymgymryd â thair swyddogaeth, yn cynnwys gwybodaeth, cyngor a chymorth drwy bwynt cyswllt cyntaf, asesu'r angen a chynllunio gofal ac adolygu cynlluniau gofal a chymorth.

Yn ystod adolygiad cam dau, daeth yn amlwg, er bod ychydig o ALLau wedi rhoi mwy o drwyddedau i dimau gofal cymdeithasol i oedolion, y gwir yw bod amrywiaeth eang, ac mae'r rhan fwyaf yn dal i gynnig nifer fach o drwyddedau ar draws llawer o adrannau yn yr ALI. Er enghraifft, mae un ardal wedi rhoi'r rhan fwyaf o drwyddedau i dimau gofal cymdeithasol plant i'w defnyddio ar gyfer tasgau gweinyddol. Mae un arall wedi ei roi i uwch reolwyr yn unig, ac mae trydydd ALI wedi lledaenu trwyddedau'n eang ar draws y sefydliad. Mae hyn wedi golygu dull mwy tameidiog, yn hytrach na dull o weithredu fesul cam. Mae ychydig o ALLau wedi rhoi'r fersiwn safonol ('rhad ac am ddim') i bob gweithiwr, tra bod eraill wedi ei gloi.

Ar y cyfan, er gwaethaf yr amrywiad hwn, gwelwyd llawer o gynnydd o ran tuag at roi MS Copilot ar waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yng Nghymru - ac AI yn gyffredinol.

Yn ystod cam un, roedd brwdfrydedd dros botensial AI, ond ychydig o ALLau oedd yn ei ddefnyddio'n ymarferol. Canfu'r adolygiad hwn fod y rhan fwyaf o ALLau wedi cynnal cynlluniau peilot yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'u bod yn ei ddefnyddio'n ymarferol. Mae ymarferwyr a rheolwyr ALI yn adrodd eu bod yn defnyddio Copilot ar gyfer y tasgau canlynol:

- Creu drafftiau cyntaf o adroddiadau, asesiadau a chynlluniau gofal Drafftio gohebiaeth
- Crynhoi dogfennau (lluosog a mawr)
- Ymateb i gwynion
- Cofnodion cyfarfodydd (er bod Copilot yn cael ei ddefnyddio'n llai aml na Magic Notes ar gyfer y dasg hon)
- Sganio polisïau ac ymchwil
- Casglu tystiolaeth ar gyfer paneli

- Cronolegau a dadansoddi ffeiliau achos
- Cofnodion cyfarfodydd mewnol
- Rheoli negeseuon e-bost
- Cronolegau
- Archwilio
- Amserlenni
- Drafftio datganiadau i'r wasg
- Cefnogaeth ar gyfer goruchwyliaeth ac Adolygiadau Datblygu Proffesiynol
- Cymorth asesu gallu meddyliol
- Cynorthwyo gydag ymchwil a gwaith strategol
- Paratoi gwaith papur i'r llys
- Defnyddio Copilot i addasu tŷn ac iaith cynlluniau gofal i weddu i anghenion defnyddwyr gwasanaeth ac osgoi jargon, yn enwedig yn y gwasanaethau Anabledau Dysgu ac awtistiaeth
- Treialu swyddogaeth adnabod llawysgrifen ar gyfer atgyfeiriadau i'r ysbyty i leihau'r baich teipio

Er bod rhai ALLau yn defnyddio Copilot ar gyfer tasgau gweinyddol, yn amlach defnyddir Magic Notes / Scribing neu Offer AI eraill ar gyfer:

- Cofnodi achosion
- Cysylltiadau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth
- Cofnodion a thrawsgrifio
- Cynadledau Amddiffyn Plant (nid yw rhai asiantaethau MARAC yn caniatáu defnyddio Copilot)
- Golygu (Y teimlad oedd bod Adobe AI ac offer eraill yn fwy effeithiol)

Y farn yn gyffredinol yw bod ymarferwyr a gweinyddwyr rheng flaen yn tueddu i ffafrio offer trawsgrifio, tra bod rheolwyr a rolau corfforaethol yn ffafrio Copilot. Serch hynny, mae eithriadau, ac mae rhai gweithwyr cymdeithasol yn defnyddio Copilot ar gyfer swyddogaethau gweinyddol hefyd.

Dywedodd un gweithiwr cymdeithasol,

"Rwy'n credu ei fod yn wych ar gyfer nodiadau cyfarfodydd ac i gefnogi Gweithwyr Cymdeithasol i gwblhau asesiadau. Ond, mae angen prawf ddarllen y nodiadau hyn er mwyn cywirdeb. Rwyf wedi sylwi y gallai rhai o fy nodiadau cyfarfod gynnwys enwau anghywir neu wybodaeth sydd wedi'i chamddechongli."

Nid yw rhai ALLau wedi cynnig trwyddedau i weithwyr cymdeithasol eto, gan fod rheolwyr neu staff gweinyddol yn dal i brofi'r offeryn.

Y teimlad yw bod modd llwytho ffurflenni yn gryfach yn Magic Notes, er bod Copilot yn gwneud gwelliannau y disgwylir iddynt ei gefnogi, felly'n cynnig gallu tebyg yn y dyfodol agos.

Mae aeddfedrwydd yn amrywio o ran defnyddio – mae rhai ALLau yn datblygu cyfryngau strwythuredig ac yn awgrymu ymgymryd â swyddogaethau penodol wedi'u teilwra i dimau unigol, tra bod eraill yn rhoi trwyddedau ond nid yn ymgymryd â'r gweithgareddau hyn.

Nododd llawer o'r ALLau a gymerodd ran eu bod yn gweld Magic Notes neu offer AI cyfatebol yn well wrth gwblhau tasgau gweinyddol penodol fel cymryd cofnodion a thrawsgrifio. Adroddir bod Copilot yn gyfyngedig mewn sawl ffordd, gan gynnwys sgiliau cyfieithu gwael a diffyg cydnabod y Gymraeg yn barhaus, diffyg gallu i ddal lleisiau yn ystod cyfarfodydd wyneb yn wyneb, ac mae angen symud offer ychwanegol swmpus a drud o ystafell i ystafell. Mae hefyd yn mynnu bod

defnyddwyr yn deall sut i greu eu cais, lle mae offer AI eraill yn gwneud hyn y tu ôl i'r llenni, sy'n fwy hygyrch i'r rhai sydd â llai o hyder. Mae Copilot yn dal i gael ambell i anhawster o ran gweithio gyda rhai Systemau Rheoli Achosion

Mae cryfderau Copilot yn cynnwys ei gymhwysiad eang i swyddogaethau fel ymchwil, crynhoi gwybodaeth a drafftio adroddiadau / gohebiaeth. Nododd arweinwyr digidol fod ei alluoedd wedi gwella'n fawr dros y 12 mis diwethaf, er ei fod yn dal i wneud gwallau, ac mae rhai defnyddwyr yn adrodd ei fod yn drwsogl ar adegau wrth drin data.

Agwedd tuag at Fabwysiadu

Un o'r prif wahaniaethau rhwng ALLau yw'r agwedd y maen nhw wedi'i gymryd tuag at fabwysiadu – rhai yn rheoli'i ddefnydd yn llym iawn, ac eraill yn annog mwy o arbrofi rhydd. Mae hyn yn amlwg yn y dyfyniadau isod gan ddau ALI wahanol:

ALI 1) Rwy'n credu ein bod ni wedi dechrau gyda grŵp o bobl a oedd yn awyddus iawn ac fe wnaethon ni roi rhai trwyddedau iddyn nhw. Fe wnaethon ni roi rhyw fath o ryddid iddyn nhw fwy neu lai i wneud eu gwaith gyda Copilot, ac yna fe wnaethon ni edrych ar eu profiad, ac o'r fan honno fe wnaethon ni benderfynu beth oedd angen i ni ei wneud yn dorfol i'w weithredu. .. rydym yn gweithio gyda'n gilydd [gyda TG] ac yn defnyddio hyrwyddwyr i ddysgu ymarferwyr eraill sut i gael y gorau o Copilot.

ALI 2) Yr un fu'r achos ers tro, sef sut mae un unigolyn yn teimlo ac nid yw erioed wedi cael ei gwestiynu o'r blaen...ond erbyn hyn, mae uwch arweinwyr yn ei drafod...mae'n ymddangos mai ni yw'r rhai sy'n cael eu gadael ar ôl

Hyfforddiant

Mae'r hyfforddiant wedi bod yn anghyson – mae'r rhan fwyaf o ALLau yn cynnig cyflwyniad sylfaenol trwy sesiwn byr wyneb yn wyneb neu weminar. Mae ambell i ALI yn cynnig cefnogaeth barhaus trwy sesiynau arweiniol pwrpasol ar ffurf galw heibio / datblygu. Mae rhai aelodau staff â thrwyddedau yn adrodd nad ydynt wedi cael unrhyw hyfforddiant, ac maent yn dysgu wrth iddynt fynd ymlaen neu drwy wyllo fideos ar-lein.

Pan ofynnwyd iddynt am yr hyfforddiant y maent yn ei gael gan eu ALI mewn perthynas â rhoi Copilot ar waith, dywedodd 67% o ymarferwyr rheng flaen a ymatebodd i'r arolwg, eu bod wedi cael hyfforddiant sylfaenol. Nid oedd 33% yn ymwybodol bod unrhyw hyfforddiant ar gael. Ni adroddodd yr un ohonynt eu bod wedi cael hyfforddiant manwl neu barhaus. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod eu hyder i ddefnyddio Copilot wedi cynyddu, er bod 71% yn priodoli hyn i ddysgu ar eu liwt eu hunain.

Mae arweinydd Copilot mewn un ALI hefyd yn gweithio'n agos gydag arweinwyr digidol / TG i sicrhau bod Copilot yn rhywbeth sy'n cael ei deilwra mewn gwahanol leoliadau. Mae cynnig cynefino strwythuredig yn cynnwys awgrymiadau, moeseg a chynnwys sy'n cael ei adolygu gan berson. Roedd rhywfaint o ymwybyddiaeth am adnoddau hyfforddi cenedlaethol ar-lein sy'n dod i'r amlwg, ond roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn ansicr ble i ddod o hyd iddo.

Cymerodd un ALI ran mewn gweithdai 'awgrym/cyfrwng-athon' i ddatblygu pethau i'w defnyddio o'r newydd, ac mae'n cynnal grŵp arloesi sy'n creu cyfryngau newydd. Mae eraill yn rhannu dolenni i gyfleoedd dysgu micro ar-lein. Roedd dau ranbarth yn hyrwyddo'r syniad o fodolau 'hyfforddi'r hyfforddwr' yn lledaenu ledled Cymru i feithrin gallu a dealltwriaeth.

Neges allweddol sy'n dod i'r amlwg gan bron i bob cyswllt yw'r angen am arweiniad a hyfforddiant penodol ar rolau a disgyblaethau, a hynny yng nghyd-destun timau ac achosion penodol. Oherwydd bod yr offeryn mor eang, mae angen cyngor a chefnogaeth ar ymarferwyr i fanteisio i'r

eithaf ar ei alluoedd wrth ymarfer, yn hytrach na mynediad at adnodd hyfforddi generig a fydd yn cwmpasu'r agweddau sylfaenol yn unig. Roedd cefnogaeth eang i gronfa ddata ganolog ar gyfer achosion defnydd a chyfryngau, er bod ambell i arweinydd wedi nodi y byddai hyn yn galw am reoli ansawdd o ryw fath i sicrhau diogelwch ac effeithiolrwydd.

Yn gryno, nid oes model clir sy'n fater o 'un dull sy'n addas i bawb' wrth ddefnyddio Copilot yn ymarferol yn y maes gofal cymdeithasol (oedolion). Bydd gan bob tîm a defnyddiwr eu hanghenion a'u prosesau eu hunain, ac mae angen dulliau wedi'u teilwra i gael y gorau o'r dechnoleg.

Ystyriaethau Technegol

Dewis yr Offeryn Mwyaf Priodol

Mae offer fel Magic Notes yn cael eu creu yn ôl dibenion cyfyngedig, penodol, ac maent yn cyflawni'r tasgau hyn yn eithaf da. Mae angen llai o hyfforddiant arnynt ac maent yn symlach i'w defnyddio'n ymarferol. I rai ALLau, mae Magic Notes yn ateb syml i swyddogaethau gweinyddol (gwneud cofnodion er enghraifft), tra adroddir bod offer golygu syml yn gwneud y dasg yn well. Fodd bynnag, mae risg o dreuliau cynyddol gyda'r angen i brynu sawl offer AI ar gyfer swyddogaethau gwahanol.

Mae Microsoft Copilot yn offeryn sy'n ehangach o ran cwmpas, gyda mwy o gymwysiadau, ond mae angen lefel uwch o sgiliau a hyfforddiant ar ddefnyddwyr i'w ddefnyddio'n effeithiol. Mae'n cynnig mwy o fanteision i'r rhai sy'n ei ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth o swyddogaethau. Mae rhai ALLau yn adrodd bod uwch reolwyr wedi cael llawer o fudd o Copilot, gan ei ddefnyddio ar gyfer tasgau mwy strategol ac ymchwil, yn hytrach na rhai gweinyddol mwy gweithredol. Fodd bynnag, rhannodd ALLau eraill fod eu timau ymarferwyr gwaith cymdeithasol/ rheng flaen, wedi bod yn adrodd canlyniadau ffafriol iawn wrth ddefnyddio Copilot.

Lefel y Drwydded

Mae rhai cynghorau wedi uwchraddio'n eang i drwyddedau Microsoft E5 sy'n fwy costus, tra bod eraill yn parhau i ddefnyddio trwyddedau lefel E3, neu'n teimlo bod y drwydded safonol (heb ffi ychwanegol) bellach yn debyg o ran ymarferoldeb i E3 wrth i'r dechnoleg ddatblygu. Mae diweddariadau a newidiadau rheolaidd ar wahanol lefelau sy'n ei gwneud hi'n anodd cadw golwg ar eu galluoedd a'u cymhwyso mewn lleoliadau gofal cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod dewis y lefel gywir o drwydded ar gyfer timau unigol / aelodau staff yn her barhaus.

Felly, mae'n bwysig ystyried pam a sut y gallai pob cofrestrydd ddefnyddio'r offeryn - nid yw bob amser yn angenrheidiol prynu'r drwydded lefel uwch i gael y swyddogaeth sydd ei angen. Mae hyn yn ystyriaeth bwysig i ALLau o ystyried cyfyngiadau eu cyllideb a'u heffaith ar arloesi a rhoi ar waith. Awgrymwyd y byddai datblygu matrices sy'n nodi sut a phryd y gellir defnyddio pob fersiwn yn ganllaw defnyddiol i gynorthwyo ALLau i wneud penderfyniadau neu nodi eu meini prawf i ddefnyddwyr yn y dyfodol.

Heriau o ran Seilwaith Data

Mae rhai ALLau yn diweddarau eu systemau rheoli achosion neu'n eu symud (ee o WCCIS i MOSAIC, OLM neu Eclipse) ac maent wedi blaenoriaethu'r fath newidiadau digidol mawr, dros benderfyniadau llai am offer AI oherwydd yr effeithiau ar staff a'r holl waith sydd ei angen i hwyluso'r newidiadau. Mynegodd rhai cyfranogwyr nad yw Copilot wedi cyrraedd y disgwyliadau o ran sut mae'n rhyngweithio â SharePoint i ddadansoddi data.

Gall cyfyngiadau o ran rhyngweithiad Microsoft hefyd effeithio ar allu Copilot i gyflawni pob agwedd - er enghraifft, mae dyfais adnabod llais MS Teams yn dal i fod yn wan, yn enwedig mewn

cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Un her fawr i ranbarthau Cymraeg yw'r brwydrau parhaus i MS Teams ddeall y Gymraeg yn gywir – bu rhai gwelliannau, ond y teimlad yw nad yw'n ddibynadwy, ac mae hyn wedi arwain o leiaf un ALI i optio allan.

Eglurder ynghylch Seilwaith Cenedlaethol

Mynegodd arweinwyr digidol eu barn bod gormod o gymhlethdod ynghylch llywodraethu a seilwaith cenedlaethol yn nhermau datblygiadau digidol, ac maent wedi sylwi llawer o ddyblygu gweithgareddau a dryswch ynghylch pa sefydliadau sy'n cefnogi technolegau newydd. Nodwyd y byddai eglurder ar hyn yn ddefnyddiol i lywio'r dirwedd ddigidol yng Nghymru.

Diwylliant y Gweithlu ac Ystyriaethau Moesegol

Un o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad hwn oedd yr effaith y mae diwylliant sefydliadol wedi'i chael ar roi Copilot ar waith yn ymarferol. Lle mae Arweinwyr Digidol, rheolwyr ac ymarferwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, mae cynnydd llawer cyflymach, ac adroddir canlyniadau mwy cadarnhaol. Lle mae'r swyddogaethau hyn yn fater o weithio mewn seilo yn y sefydliad, mae cyfranogwyr yn adrodd rhwystredigaethau o ran goresgyn rhwystrau llywodraethu a chael eu hatal rhag symud ymlaen, fel y mynegir isod:

Rydyn ni i gyd yn barod i fynd, ond mae uwch arweinwyr yn gwrthwynebu AI felly nid ydym wedi gallu symud ymlaen.

Rydym wedi gofyn am drwyddedau dro ar ôl tro ond mae ein hadran TG wedi ein 'rhwystro' am nad oes digon o dystiolaeth.

Mae gan un ALI dîm sy'n gweithredu'n dda iawn gan gynnwys arweinydd AI penodedig, yn ogystal ag arweinwyr digidol, rheolwyr a grŵp hyrwyddwyr, sy'n gweithio gydag ymarferwyr i ehangu'r gwaith o ddefnyddio Copilot. Mae hyn wedi arwain at nifer yn defnyddio Copilot yn eang a chynyddu hyder o ran ei ddefnyddio ar gyfer nifer fawr o dasgau.

Roedd moeseg, barn broffesiynol ac ymarfer yn bryderon cyffredin a godwyd yn ystod y grwpiau ffocws yng Ngham Un. Trafodir y themâu hyn isod gan adlewyrchu safbwyntiau cyfredol ALLau.

Cywirdeb

Yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad cyntaf, rhannodd yr holl ALLau a gafodd eu cyfweld, eu bod yn annog gwirio unrhyw gynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan AI, gan feithrin dull o gadw person yn y broses i wirio ei gywirdeb. Nododd sawl cyfranogwr fod gwallau, a bod Copilot weithiau yn gallu 'creu' gwybodaeth wrth chwilio am yr hyn sy'n anodd ei gyrchu, ee mewnosod gwybodaeth o ddogfennau y tu allan i'r cais dan sylw. Mae'n arbennig o bwysig bod gwirio cynnwys yn parhau i fod yn fater allweddol, a disgwylir hyn gan weithwyr sy'n defnyddio offer AI.

Hunaniaeth Broffesiynol, Ymarfer a Copilot

Mynegodd dau a gymerodd rhan yn yr adolygiad, bryder am effaith technoleg AI ar raddedigion newydd o brifysgolion, a allai fod wedi ei defnyddio trwy gydol eu hastudiaethau i gefnogi eu gwaith. Mae rhai ymarferwyr hŷn yn parhau i ofni y gallai ddiffygio crafter proffesiynol os ydynt yn dibynnu'n ormodol ar Copilot a chyfryngau AI eraill i'w cefnogi i wneud penderfyniadau a pharatoi adroddiadau. Awgrymwyd y dylai'r cwricwlwm gynnwys defnyddio AI yn gyfrifol i gefnogi meddwl yn feirniadol.

Mae ymchwil a ymgymerwyd gan Waith Cymdeithasol Lloegr⁵ yn cefnogi'r farn hon

Dylai'r angen i arfogi myfyrwyr a phrentisiaid yn y maes gwaith cymdeithasol ar gyfer cyd-destun proffesiynol sy'n newid yn gyflym, fod yn ystyriaeth allweddol mewn addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol. Fodd bynnag, dangosodd ymatebion yr arolwg nad oedd 86% o weithwyr cymdeithasol a raddiodd yn y 5 mlynedd diwethaf wedi cael eu paratoi mewn unrhyw ffordd benodol i ddefnyddio AI wrth ymarfer gwaith cymdeithasol yn ystod eu haddysg a'u hyfforddiant.

Fodd bynnag, mynegodd y rhan fwyaf a ymatebodd i'r adolygiad hwn y gall Copilot fod yn offeryn defnyddiol mewn ymarfer proffesiynol os yw'n cael ei ddefnyddio'n iawn, yn hytrach na disodli barn ddynol. Dywedodd y rhan fwyaf a ymatebodd i'r adolygiad, fod Copilot yn gydnaws â'u gwerthoedd proffesiynol ac yn cyd-fynd â nhw.

Mae'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn adrodd defnyddio AI fel offeryn wrth ymarfer, yn hytrach nag i ddisodli rolau. Fodd bynnag, nododd un ALI eu bod wedi gallu lleihau nifer y rolau gweinyddol sy'n ofynnol yn y Gwasanaethau Plant trwy ddefnyddio Copilot a pheidio â llenwi swyddi gwag. Er bod hyn wedi effeithio ar lwyth gwaith gweddill y gweinyddwyr, mynegwyd bod y gwaith yn parhau i fod yn hawdd ei reoli am ei fod yn fwy effeithlon yn sgil gwelliannau trwy ddefnyddio Copilot.

Yn hytrach nag effeithio'n negyddol ar hunaniaeth broffesiynol, mae ymarferwyr o grwpiau ffocws yn adrodd bod defnyddio Copilot wedi gwella eu hymarfer trwy gefnogi gyda mân dasgau sylfaenol a rhyddhau amser i gwblhau rhai sy'n galw am fwy o fedr, ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Ymhlith y manteision allweddol a amlygwyd, mae:

"Treulio mwy o amser gyda'r unigolion yr wyf yn eu cefnogi."

"Mae'n gwneud pethau'n haws yn gyffredinol."

"Cael mwy o amser i dreulio ar dasgau eraill yn hytrach na phethau gweinyddol."

Yr hyn a ganfyddir am ddefnyddio AI

Yn ystod y cyfweiliadau, roedd y rhan fwyaf o ALlau sy'n defnyddio Copilot yn dweud bod lefelau pryder ac amheuaeth am y dechnoleg ymhlith staff wedi gostwng i raddau helaeth ers ei chyflwyno, a bod defnyddwyr wedi datblygu mwy o hyder a chynefindra ar ôl ei roi ar waith. Mae'r ALlau hynny nad ydynt wedi defnyddio Copilot neu'r rheini y mae eu hymagwedd tuag ato yn ofalus a chyfyngedig iawn, yn tueddu i fynegi pryderon mwy parhaus am yr ystyriaethau moesegol.

Fel y mynegwyd gan awduron yr adroddiad Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol⁷,

Mae'n hanfodol sicrhau bod AI yn ategu at arferion sy'n seiliedig ar berthynas ac yn cael eu harwain gan werth, yn hytrach na'u tanseilio, a'u bod yn ymestyn penderfyniadau sydd angen eu gwneud yn y maes gwaith cymdeithasol yn hytrach na'u hawtomeiddio.

Tystiolaeth ac Effaith

Agwedd allweddol i'w hystyried yw datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn i gefnogi'r honiadau bod yr effeithlonrwydd a'r ansawdd yn well oherwydd Copilot. Nododd sawl un o'r cyfranogwyr nad ydynt yn hyderus eto bod digon o ddata i gefnogi eu hachos busnes i'w fabwysiadu ar raddfa ehangach.

⁵ Social Work England (2025). The Emerging use of Artificial Intelligence in Social Work. [Ar-lein]. Cyrchwyd ar: [The emerging use of Artificial Intelligence \(AI\) in social work - Social Work England](#) 12 Mawrth 2026.

Mae rhywfaint o amheuaeth tuag at gynnwys a gynhyrchir gan werthwr sy'n hyrwyddo buddion Copilot, a nodwyd bod gan offer mwy penodol (fel Magic Notes) dystiolaeth well oherwydd eu cwrpas gweithredu cul, sy'n hwyluso mesur effaith yn haws.

Er gwaethaf hyn, mae sawl ALI wedi bod yn nodi effeithiau Copilot trwy eu cynlluniau peilot a'u camau gweithredu ac maent yn hapus i rannu eu canfyddiadau yn ehangach. Ceir tair astudiaeth achos yn Atodiad A, sy'n rhannu'r dystiolaeth a gasglwyd.

Ymhlith y manteision allweddol a nodwyd yng ngwerthusiadau ALI yng Nghymru mae:

Ansawdd a Hygyrchedd

Mae llawer o ALLau yn adrodd gwelliannau yn ansawdd y gwaith ysgrifenedig. Mae Copilot hefyd yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno gwybodaeth mewn fformatau mwy dealladwy ar gyfer unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol a phobl sy'n niwroamrywiol, felly'n gwella hygyrchedd. Canfu arolwg un ALI a gynhaliwyd gyda 50 o ddefnyddwyr Copilot, fod 86% o ymarferwyr gofal cymdeithasol yn gweld gwelliannau o ansawdd yn eu gwaith.

Lles y Gweithlu

Mae gostyngiadau mewn beichiau gweinyddol yn gwella morâl, ac mae rhywfaint o dystiolaeth gynnar bod y rhai sy'n defnyddio Copilot yn dweud bod cydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith a gwelliant o ran eu lles. Mae staff wedi adrodd bod ganddynt fwy o amser i gymryd seibiannau, mai yna lai o straen, a llai o amser yn cael ei dreulio yn "dal i fyny" ar waith papur y tu allan i oriau gwaith. Canfu arolwg un ALI fod 75% o ddefnyddwyr Copilot yn y maes gwaith cymdeithasol yn teimlo'n fwy cadarnhaol am eu rôl a dywedodd mwy na 50% fod eu lles yn well.

Mae rhai aelodau staff yn adrodd bod ganddynt amser i fwyta cinio am y tro cyntaf ers blynyddoedd

Effeithiolrwydd a Gallu

Mae rhai mesuriadau o faint wedi'u cynnal mewn ALLau i gefnogi arbed amser. Mae hyn yn cynnwys un ALI yn gofyn i staff am yr amser a gafodd ei arbed bob mis. Awgrymodd 35% o'r rhai a ymatebodd, eu bod yn arbed dros 7 awr y mis, tra bod 52% yn amcangyfrif eu bod yn arbed rhwng 1 a 7 awr y mis. Gan dybio bod 2 awr y mis yn cael ei arbed, mae'r cyngor yn amcangyfrif y byddai'r gallu'n arbed o leiaf 36,000 awr y flwyddyn (£849k) pe bai Copilot yn cael ei ddefnyddio ar draws chwarter sylfaen defnyddwyr y Cyngor. Fodd bynnag, yn dilyn y canfyddiad hwnnw, dechreuodd yr ALI ddefnyddio Magic Notes ac mae bellach yn teimlo bod manteision Copilot yn llai yn hyn o beth.

Mae'r sawl sy'n defnyddio Copilot yn disgrifio gostyngiadau sylweddol o ran amser i gwblhau tasgau fel cymryd cofnodion, a allai fel arall gymryd sawl diwrnod o amser gweinyddwr, ond sydd bellach yn cymryd llai nag awr i wirio cywirdeb. Nodwyd gwelliannau hefyd yn yr amser y mae'n ei gymryd i gynhyrchu cronolegau, i greu adroddiadau ac i ddrafftio ymatebion i gwynion, am fod modd dod o hyd i wybodaeth berthnasol yn gyflym i lywio atebion.

Yng ngham un, nododd grwpiau ffocws i ymarferwyr rheng flaen, y tasgau y maent yn treulio fwy o amser arnynt – roedd y rhain yn cynnwys cofnodi achosion, ysgrifennu ac adolygu asesiadau, trin gohebiaeth ac ysgrifennu cynlluniau gofal a chymorth. Nododd yr arolwg i ymarferwyr rheng flaen eleni, fod y mwyafrif o'r rhai sy'n defnyddio Copilot yn teimlo bod y tasgau uchod 'yn haws ac yn cymryd llai o amser' wrth ddefnyddio'r dechnoleg.

O ran yr ymarferwyr hynny yn y rheng flaen a nododd yn yr arolwg eu bod yn rhoi gofal uniongyrchol, mae pob un ohonynt yn adrodd bod ganddynt nawr fwy o amser i'w dreulio gydag unigolion oherwydd yr amser a lwyddwyd i'w arbed, diolch i Copilot.

Isod, mae rhai sylwadau gan ymarferwyr am yr effaith ar yr ymarfer:

"Mae wedi fy helpu i wneud gwaith papur yn gyflymach o lawer... weithiau ar ôl diwrnod hir, mae hyd yn oed ysgrifennu e-bost cymhleth yn anodd, ac mae'n helpu gyda'r fath dasgau syml."

"Rwy'n gallu chwilio am wybodaeth benodol a hefyd uchafbwyntiau allweddol mewn dogfennau a deddfwriaeth."

"Nodiadau cryno ac adroddiadau asesu, sy'n cysylltu cymhwysedd â deddfwriaeth"

"Mae wedi helpu gyda fy ngweithgaredd DPP fy hun."

I'r rheini sy'n defnyddio Copilot, mae tystiolaeth gynnar yn awgrymu bod yr offeryn yn cael ei ddefnyddio'n aml (roedd 61% o bobl yn defnyddio Copilot yn ddyddiol mewn un ALI, tra bod ALI sy'n olrhain faint sy'n ei defnyddio wedi canfod mai dim ond 10% o ddeiliaid trwydded sydd ddim yn ei ddefnyddio'n rheolaidd). Dywedodd 97% o bobl sy'n defnyddio Copilot mewn un ALI ei fod wedi bod o rywfaint o ddefnydd neu'n hynod o ddefnyddiol i gyflawni tasgau dyddiol.

Mae tair astudiaeth achos gan ALLau yn cael eu rhannu yn Atodiad Un, gan dynnu sylw at yr hyn a ganfuwyd o ran effaith cynnar Copilot, yn dilyn arolygon staff gan y rheini sy'n ei ddefnyddio.

Dysgu ar y cyd

Nodwyd nad oes llawer o ddysgu ar y cyd am Copilot yn digwydd yng Nghymru. Er bod ALLau yn cynnal sgysiau anffurfiol gydag awdurdodau cyfagos neu weithiau'n rhannu syniadau wrth ddod at ei gilydd mewn cyfarfodydd, roedd cyfranogwyr yn teimlo y byddai'n fuddiol pe bai cyrff cenedlaethol yn ceisio cael hyd i rywle canolog i ddysgu, o ran achosion lle mae Copilot yn cael ei ddefnyddio, yn ogystal â chanfyddiadau sy'n cefnogi'r sylfaen dystiolaeth.

Nododd un ALI eu bod yn treialu cyfweiliadau Newid Mwyaf Arwyddocaol i ganfod effaith ansoddol defnyddio Copilot ar draws gwahanol rolau. Un arall yw mapio tasgau penodol fel cynadleddau a llifoedd gwaith llawysgrifen i fesur sut mae Copilot yn effeithio ar yr amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r gweithgareddau hyn.

Mae'r manteision allweddol a nodwyd yng ngwerthusiad un ALI yn awgrymu bod Copilot:

- Cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau trwy grynhoi gwybodaeth a data
- Gwella cysondeb a natur broffesiynol y gwaith ysgrifenedig
- Helpu staff i weithio dan bwysau a symud ymlaen i'r dasg nesaf yn gyflymach
- Mae modd dod o hyd i wybodaeth yn gyflymach mewn negeseuon e-bost, ffeiliau a SharePoint
- Cefnogi'r gwaith o gynllunio a datrys problemau, gan gynnwys amserlenni, prosesau a llif gwaith
- Rhyddhau amser fel y gall staff ganolbwyntio mwy ar bobl nid gwaith papur

Mae canlyniadau gwerthuso wedi'u cyfyngu gan nifer gymharol fach o drwyddedau sy'n cael eu defnyddio ar draws ALLau (rhwng 20 a 500 o drwyddedau, ac nid bob amser gyda chrynodeiadau uchel mewn timau gofal cymdeithasol).

Nododd y cyfranogwyr y gallai cyrff cenedlaethol gefnogi'r sylfaen dystiolaeth trwy ddatblygu:

- Fframweithiau gwerthuso safonedig
- Hwb tystiolaeth ganolog
- Astudiaethau achos ar y cyd
- Llyfrgell cyfryngau ac awgrymiadau

I grynhoi, mae rhywfaint o dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, yn dangos effeithiau cadarnhaol ar ymarfer gofal cymdeithasol yng Nghymru, er, mae hyn wedi bod yn anodd ei nodi oherwydd natur eang swyddogaethau Copilot o'i gymharu ag offer eraill, mwy penodol.

Rhwystrau a Heriau

Cyllid a Sylfaen Dystiolaeth

Mae prynu trwyddedau helaeth yn ddud, a thu hwnt i gyllidebau llawer o ALLau. Heb dystiolaeth glir bod modd arbed costau, mae wedi bod yn heriol symud o'r cyfnod peilot i'r cam gweithredu. Mae'r fersiwn safonol o Copilot sydd wedi'i chynnwys gyda Microsoft Office yn cael ei defnyddio fwyfwy yn hytrach na thalu am drwyddedau uwch. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod hyn yn ddigonol i'r rhan fwyaf o staff rheng flaen.

Parodrwydd i gymryd risg

Mae ALLau yn amrywio o ran eu hymagwedd tuag at risg wrth ddefnyddio technoleg AI. Er bod byrddau gan lawer, sy'n cynnwys pobl o wahanol swyddi, mae ALLau eraill yn cael eu llywodraethu gan naill ai uwch arweinwyr neu bolisiâu TG, a all naill ai wrthwynebu risg neu ei ganiatáu yn iawn. Mae hyn yn dibynnu ar y bobl sydd yn y swydd, a dulliau penodol yr ALL. Mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar p'un ai a fydd Copilot yn cael ei ddefnyddio, ac os felly, sut.

Canfyddiad y Cyhoedd

Mynegodd sawl cyfranogwr bryder am ganfyddiadau'r cyhoedd am AI - bu achosion lle nad oedd aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael eu recordio mewn cyfarfodydd am nad oeddynt yn ymddiried yn AI, er bod hyn yn ymddangos fel eithriad yn hytrach na'r norm. Canfu [adroddiad gan Nesta](#)⁶ fod y cyhoedd yn gyffredinol yn teimlo'n gadarnhaol am AI, fodd bynnag, fe wnaethant fynegi bod angen ceisio caniatâd hyddysg pan fyddai'n cael ei ddefnyddio, a bod angen iddo gael ei oruchwylio gan berson er mwyn osgoi camgymeriadau – a hynny gan yr ymarferydd a'r person y mae'r cynnwys yn ymwneud ag ef. Nid oedd yr un o'r ALLau yr ymgynghorwyd â nhw yn nodi eu bod yn gofyn i bobl sy'n cael cymorth, wirio'r dogfennau, sy'n rhywbeth i'w ystyried.

Mae'r rhan fwyaf o ALLau yn rhannu ymwadiad wrth recordio cyfarfodydd yn nodi bwriad y gweithgaredd (i gefnogi cymryd cofnodion er enghraifft) ac fel arfer nid yw hyn broblem iddynt.

Awgrymwyd y byddai esboniadau clir mewn Saesneg clir, hawdd ei deall wrth gyfathrebu â'r cyhoedd am AI a'i ddefnydd yn y maes gofal cymdeithasol, yn helpu i gefnogi'r cam i ddefnyddio'r dechnoleg, yn enwedig pan gaiff ei hyrwyddo gan asiantaethau cenedlaethol.

Llywodraethu

Rhannodd y mwyafrif o ymarferwyr yn y grwpiau ffocws fod diffyg canllawiau a pholisïau ar ddefnyddio Copilot yn eu ALL, a all achosi pryder am ymarfer proffesiynol neu ddefnyddio'r dechnoleg yn ddiogel. Nododd rheolwyr ac uwch arweinwyr fwy o ganllawiau sydd ar gael yn lleol

⁶ Berditchevskaia, Peach and Moss. (2025) How does the public feel about social workers using AI. [Ar-lein] Ar gael ar: [How does the public feel about social workers using AI? | Nesta](#) [Cyrchwyd 10 Mawrth 2026].

– sy'n awgrymu mater o ymwybyddiaeth o bosibl, a'r angen i gyfleu polisïau yn glir i aelodau staff. Fodd bynnag, nid yw pob ALI wedi datblygu eu dogfennaeth eu hunain ynghylch defnyddio AI neu Copilot yn benodol.

Gall gweithio ar draws asiantaethau fod yn broblem os oes ganddynt bolisïau gwahanol ar ddefnyddio AI (er enghraifft, mae gan yr heddlu a gwasanaethau prawf, iechyd ac ALLau reolau gwahanol ynghylch sut a phryd y gellir defnyddio Copilot sy'n heriol mewn cyfarfodydd amlasiantaeth).

Gall fod anghysondeb rhwng polisïau diogelu / cadw data a gosodiadau safonol Microsoft, a allai arwain at safonau gwahanol ar draws ALLau neu yn yr achos gwaethaf, mynd yn groes i ddeddfwriaeth.

Opsiynau Trwyddedu

Mae trwyddedu yn faes sy'n achosi dryswch mawr a phwysau o ran costau. Gofynnodd awdurdodau am fatrics cenedlaethol "pa drwydded sydd angen ar bwy" ar gyfer gwahanol rolau a / neu dasgau, o ystyried ansicrwydd rhwng y Copilot sydd ar gael am ddim, Copilot Pro, Copilot ar gyfer M365 E3 / E5 ac offer trawsgrifio eraill, er bod rhai yn nodi y gallai'r rhain ddod yn fersiynau hen yn weddol gyflym.

Hyfforddiant

Nodwyd bod rhyddhau staff i hyfforddi, a diffyg hyfforddiant addas wedi'i deilwra yn rhai o'r prif heriau. Mynegodd rhai cyfranogwyr awydd am gefnogaeth barhaus wrth fynd ati i ddefnyddio Copilot, ochr yn ochr ag anghenion staff am fod eu hyder i roi cynnig ar awgrymiadau newydd yn amrywio. Nododd llawer o ALLau eu bod yn defnyddio dull 'dysgu trwy wneud' yn hytrach na chynnig hyfforddiant ffurfiol y tu hwnt i'r pethau sylfaenol fel defnyddio'n ddiogel.

Cyfyngiadau Technegol

Mae materion seilwaith fel y berthynas â rhai Systemau Rheoli Achosion (SRhA) ac ALLau sy'n blaenoriaethu prosiectau digidol mwy fel symud SRhA weithiau yn oedi neu'n atal y gwaith o ddefnyddio Copilot.

Weithiau mae gan Copilot broblemau ansawdd wrth ei ddefnyddio gyda Microsoft Teams, fel ansawdd y sain ar Teams (yn enwedig ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb), a chyfyngiadau iaith Gymraeg sy'n arbennig o berthnasol i ALLau sydd â nifer uchel o siaradwyr Cymraeg.

Gallu Digidol y Staff

Mae hyder a sgiliau wrth ddefnyddio Copilot yn amrywio, ac oherwydd ei gymhwysiad eang, gall fod yn llai greddfodol a chyfeillgar i'r defnyddiwr nag offer llai sydd â mwy ffocws sy'n gwneud llai o dasgau (fel Magic Note)

Defnyddio AI Mewn Achosion Cyfreithiol

Mae rhywfaint o ddiffyg eglurder o hyd ynghylch defnyddio AI yn y llysoedd, a derbyn tystiolaeth sydd wedi ei chynhyrchu gan AI yn ogystal â materion ynghylch capasiti a chaniatâd, ac mewn ambell i achos mae rhannu data rhwng sefydliadau yn gymhleth oherwydd polisïau gwahanol. Mae

adroddiad diweddar⁷ gan Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) yn tynnu sylw at y fath bryderon parhaus

Er y nodwyd bod llawer o fanteision, fel arbed amser, mae hefyd yn tynnu sylw at risg o ragfarn, "rhithwelediadau" ac "anrhagweladwyedd a allai, o bosib, arwain at gamliwio niweidiol".

"Nid yw risgiau o'r fath yn cael eu lliniaru'n llawn" gan gyflogwyr a llunwyr polisi, sy'n gadael gweithwyr rheng flaen i "lywio'r heriau hyn ar eu pennau eu hunain. Gall gweithwyr cymdeithasol wynebu effeithiau proffesiynol neu gyfreithiol am anghywirdebau sy'n deillio o offer trawsgrifio AI, sef swyddogaethau trawsgrifio a chrynhoi"

Mae'r ymchwil hon yn tynnu sylw at ba mor bwysig ydyw i weithiwr cymdeithasol gael arweiniad a chefnogaeth glir ynghylch defnyddio AI mewn ffordd briodol, a mynd ati'n ofalus i wirio'r cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan AI i ganfod unrhyw anghywirdebau. Bydd y prosiect 'AI yn y Gyfraith' sy'n cael ei gynnal, yn cynnig eglurder yn y maes hwn.

Mae barn wahanol ymhlith ALLau am ddefnyddio AI yn briodol mewn gwahanol gyd-destunau – mae rhai yn gyfforddus â'i ddefnyddio i gefnogi Aseidiadau Galluedd Meddyliol er enghraifft, tra bod eraill yn ei gyfyngu i swyddogaethau gweinyddol.

Cyflymder y Newid

Mynegodd llawer o gyfranogwyr bryder am gadw ar flaen cyflymder y newid. Mae staff yn yr ALLau hynny nad ydynt yn defnyddio Copilot eto yn adrodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gadael ar ôl, ac efallai y bydd y rhai heb drwyddedau hefyd yn teimlo eu bod wedi'u heithrio, lle mae cyfyngiadau ar niferoedd a dim ond rhai cydweithwyr sy'n eu cael.


Galluogwyr

Galluogwyr Cenedlaethol

Trafodwyd yr argymhellion a wnaed yng Ngham Cyntaf adroddiad Copilot yn rhan o'r adolygiad hwn. Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd rhan yn yr arolwg ddweud pa un o'r dulliau cenedlaethol a argymhellir, byddai'n fwyaf defnyddiol i'w Hawdurdod Lleol. Gellir gweld y canlyniadau yn Siart 4:

Siart 4: Yr Argymhellion Cenedlaethol Mwyaf Defnyddiol, yn ôl y cyfranogwyr

⁷ The Ada Lovelace Institute. (2026) Social workers at risk of legal action over AI inaccuracies. [Ar-lein] Ar gael ar: [Social workers at risk of legal action over AI inaccuracies | BASW](#) [Cyrchwyd 12 Mawrth 2026].



Llwyddodd yr adolygiad i amlygu nifer o themâu clir ynghylch sut y gallai sefydliadau cenedlaethol gynorthwyo ALlau

Canllawiau a Chyngor Cyfreithiol

Y thema ddaeth i'r amlwg fwyaf ymhob cyfweiliad, ac a ddewiswyd fwyaf yn yr arolwg oedd yr awydd am gefnogaeth gan sefydliadau cenedlaethol ynghylch cyngor cyfreithiol, a chynhyrchu canllawiau cenedlaethol. Y teimlad oedd bod angen mwy o eglurder ynghylch disgwyliadau a materion cyfreithiol i gefnogi mwy i fabwysiadu ac i ddeall barn cyrff cenedlaethol ar ddefnyddio Copilot (ac AI yn ehangach).

Mae ambell i ganllaw yn dod i'r amlwg ac yn wir maent yn bodoli, er enghraifft, [Canllaw AI ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru](#)² Gofal Cymdeithasol Cymru ac adroddiadau BASW, ond mae ymwybyddiaeth o'r adnoddau hyn yn gyfyngedig ac mae cyfranogwyr yn nodi ei fod wedi'i ledaenu ar draws llawer o wahanol wefannau / grwpiau, sy'n ei wneud yn anodd ei lywio.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi adnodd⁸ yn manylu ar eu rôl wrth gefnogi defnyddio AI yn y sector cyhoeddus

Rhwydwaith Hyrwyddwyr Cenedlaethol

Er bod mwyafrif y cyfranogwyr yn cefnogi rhwydwaith hyrwyddwyr parhaus, fe wnaethant rybuddio am faint o grwpiau a rhwydweithiau sy'n dod i'r amlwg yn y gofod hwn ar draws sefydliadau. Y teimlad oedd y byddai ffocws AI ehangach yn fwy gwerthfawr na grŵp sy'n benodol i Copilot.

Ar hyn o bryd nid oedd lle clir i ddysgu ar y cyd, er bod arweinwyr digidol yn nodi eu bod yn dod at ei gilydd yn genedlaethol mewn fforymau eraill yn eithaf rheolaidd.

⁸ Llywodraeth Cymru (2025). Deallusrwydd Artiffisial: Yr hyn rydym yn ei wneud i helpu i sicrhau bod deallusrwydd artiffisial yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol ac yn foeseogol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. [Ar-lein] Ar gael ar: [Deallusrwydd Artiffisial \(AI\) | LLYW.CYMRU](#) [Cyrchwyd 3 Mawrth 2026].

Dysgu ar y cyd

Roedd cefnogaeth eang i greu sylfaen dystiolaeth ganolog sy'n coladu canfyddiadau'r nifer o gynlluniau peilot a gwerthusiadau sydd wedi mynd rhagddynt, a'r farn oedd y gallai sefydliadau cenedlaethol chwarae rôl wrth ddadansoddi a chyflwyno tystiolaeth i gefnogi ALIau i lunio achosion busnes os oes potensial i arbed costau.

Yn yr un modd, croesawyd 'un man' lle byddai modd rhannu cyfryngau, achosion lle mae'n cael ei ddefnyddio, ac awgrymiadau - er gyda rhybudd y byddai angen rhyw fath o reoli ansawdd i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

Roedd llai o gefnogaeth i ddysgu ar sail 'Unwaith i Gymru', yn bennaf oherwydd y ffaith ei fod yn nodi anghenion hyfforddiant i'w teilwra i'r tîm a'r defnyddiwr a byddai ei angen yn barhaus..

Caffael

Nododd y cyfranogwyr y dyblygu ymdrech ymysg pob ALI wrth iddynt brynu trwyddedau gan ddarparwyr, ac awgrymodd y byddai datblygu fframwaith caffael neu brynu trwyddedau 'unwaith i Gymru' yn ei wneud yn haws i'w lywio. Ar hyn o bryd mae prosiect darganfod ar y gweill o'r enw 'Datblygiad Arloesol' sy'n archwilio'r opsiynau caffael posibl.


Y Wybodaeth Ddiweddaraf

Mae arweinwyr digidol yn teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio gosodiadau a nodweddion Copilot, ond yn ei chael hi'n anodd cadw ar flaen y newidiadau cyflym o ran natur ymarferol a'r gwahaniaethau rhwng trwyddedau. Er bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda chyflenwyr, mae arweinwyr weithiau'n pryderi mai prif nod cyflenwyr yw cynyddu gwerthiant - awgrymwyd y byddai canllawiau cenedlaethol diduedd ar alluoedd diweddaraf offer AI amrywiol yn arbed llawer o amser a byddai'n fwy dibynadwy o ran llywio penderfyniadau.

Galluogwyr ALI

Trafodwyd yr argymhellion a wnaed yng Ngham un adroddiad Copilot a hynny'n rhan o'r adolygiad hwn. Gofynnwyd i gyfranogwyr pa un o'r dulliau a argymhellir fyddai'n fwyaf defnyddiol iddynt ar lefel ALI. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Siart 5:

Siart 5: Yr Argymhellion Mwyaf Defnyddiol i ALI, yn ôl y cyfranogwyr



Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo mai hyfforddiant lleol oedd y dull gorau, ynghyd ag ymgysylltu a chefnogaeth barhaus i staff rheng flaen ynglŷn â defnyddio Copilot yn ymarferol. Roedd cefnogaeth i' ganllawiau ar ddefnyddio'n ddiogel a'r awgrymiadau gorau a gynhyrchwyd yng ngham un yr adroddiad, a phwyslais ar archwilio ymhellach i sut i gefnogi rhyngweithio rhwng Copilot a Systemau Rheoli Cynnwys.

Trwy gydol yr adolygiad, daeth sawl thema am 'beth sy'n gweithio' i'r amlwg:

Dulliau amlddisgyblaeth

Yr ALIau hynny sy'n gweithio ar draws adrannau sydd â'r canlyniadau cryfaf. Lle mae arweinwyr digidol yn gweithio gyda rheolwyr ac ymarferwyr i addasu'r dasg o ddefnyddio'r offeryn, mae Copilot yn cael ei ddefnyddio'n ehangach ac maent yn ei ddeall yn well. Mae'n fwy tebygol y bydd safbwyntiau cryf gan unrhyw un uwch arweinydd yn gytbwys pan fydd pawb yn cydweithio.

Yn un o'r ALI, mae arweinwyr digidol yn trefnu hyfforddiant ochr yn ochr ag ymarferwyr i sicrhau ei fod wedi'i deilwra i anghenion gwasanaeth.

Fe wnaethon ni sicrhau ein bod ni'n gweithio gyda'n gilydd i fod yn siŵr bod yr hyfforddiant yn berthnasol, oherwydd nid yw bob amser, wyddoch chi, ac yn yr iaith gywir, yr ydyn ni'n siarad o fewn technoleg, rydyn ni'n siarad ein hiaith ein hunain, rydyn ni'n cymryd y lefel o ddealltwriaeth yn ganiataol

Arweinwyr Penodedig

Mae'r ALIau hynny sydd â swydd benodedig ar gyfer rhoi Copilot / AI ar waith, ymhellach ar y blaen, ac maent yn cynnig cefnogaeth barhaus a mwy cadarn i'r rheini sy'n defnyddio'r dechnoleg. Roedd yr ALIau hynny sydd â chefnogaeth gref gan uwch arweinwyr wrth fynd ati i ddefnyddio Copilot yn llawer mwy tebygol o fod â swyddi'n ymwneud â gweithgareddau arloesi a thrawsnewid digidol.

Targedu Buddsoddiad

Mae'r ALIau hynny sy'n defnyddio systemau i reoli pwy sy'n cael trwyddedau ar wahanol lefelau

wedi gallu rheoli prynu mewn ffordd sy'n arwain at arbed costau. Mae llawer o ALLau wedi nodi bod gallu cynyddol rhaglen sylfaenol Copilot safonol yn golygu ei fod yn aml yn ddigon i'r mwyafrif o ddefnyddwyr rheng flaen. Mae'r rhai sy'n defnyddio ei swyddogaethau ehangach fel uwch reolwyr, yn elwa o drwyddedau uwch (E3), tra bod arweinwyr digidol technegol angen y drwydded uchaf (M365 E5) i sicrhau bod y gosodiadau monitro a diogelu data i'r eithaf. Efallai y bydd angen trwyddedau uwch ar 'uwch-ddefnyddwyr' unigol hefyd. Mae rhai ALLau yn gofyn i feysydd / timau gwasanaeth unigol dalu costau trwyddedau, a monitro'r hyn a ddefnyddir ac mae trwyddedau'r rheini nad ydynt yn defnyddio'r offeryn yn cael eu haildgyrannu.

Cydweithio

Mae rhai ALLau wedi bod yn cyfarfod yn anffurfiol i rannu gwybodaeth ymysg ei gilydd. Mae hyn wedi cefnogi dysgu ac annog mwy i'w fabwysiadu. Fodd bynnag, mae cyfranogwyr mewn rhai ALLau yn teimlo'n ynysig ac ar ei hôl hi, lle nad yw eu ALI yn symud ymlaen ar yr un cyflymder.


Mae ALLau hynny sy'n annog y rhai sy'n defnyddio Copilot i gydweithio i arloesi ac arbrofi yn cael canlyniadau mwy cadarnhaol:

Maen nhw wedi creu grŵp cyfoedion ac maen nhw wedi dangos i bobl pa awgrymiadau sy'n cynhyrchu'r math gorau o gynnwys ar gyfer yr asesiad rydych chi am ei wneud. Y math hwnnw o syniad, lle rydyn ni'n defnyddio ymarferwyr i ddysgu ymarferwyr eraill sut i gael y gorau o Copilot, oherwydd nid yw hynny'n arbenigedd sydd gan TGCh, sef yr un arbenigedd ag sydd gan ymarferwyr.

Galluogwyr Digidol Technegol

Gofynnodd yr arolwg i arweinwyr digidol raddio pa un o argymhellion Cam un oedd fwyaf buddiol. Mae'r canlyniadau wedi'u crynhoi yn Siart 6:

Siart 6: Yr argymhellion digidol technegol mwyaf defnyddiol, yn ôl y cyfranogwyr



Mae arweinwyr digidol yn gadarn o blaid symud i SharePoint o ran ymarferoldeb a defnyddio rheolaethau Copilot i sicrhau eu bod yn ei ddefnyddio'n fwy diogel ac i fonitro, trwy greu

newidiadau i leoliadau. Roedd llai o gefnogaeth i'r swyddogaethau 'gorau o'u bath' a'r dulliau a rennir.

Adleisiwyd y thema hon mewn llawer o gyfweiliadau. Teimlai'r arweinwyr digidol ei fod yn well gallu addasu'r defnydd o Copilot ar sail anghenion a dewisiadau lleol, yn hytrach na dulliau a rennir.

Casgliadau

Mae MS Copilot wedi ei fabwysiadu'n eang gan yr ALLau, er bod cymwysiaid AI eraill hefyd yn boblogaidd. Mae technoleg yn esblygu ac yn aeddfedu'n gyson ar gyflymder sy'n anodd cadw ar ei blaen.

Mae ALLau wedi mynd ati i roi Copilot ar waith mewn ffyrdd gwahanol o ran ymagwedd, graddfa a chyflymder. Mae rhai wedi prynu trwyddedu cyffredinol ar draws eu timau, tra bod eraill yn dethol yn ofalus iawn a chyfyngu ar y rhai sy'n cael mynediad at yr offeryn. Mae ambell i ALI wedi dewis peidio â bwrw ymlaen â Copilot o gwbl, naill ai o blaid offer AI eraill, neu oherwydd polisïau sy'n eu gwahardd rhag ei ddefnyddio. Mae angen dewis yr offeryn cywir ar gyfer y rôl gywir.

Mae'r ALLau hynny sydd ag agwedd tîm amlddisgyblaethol ac arweinwyr penodedig, wedi cael mwy o lwyddiant wrth ddefnyddio Copilot ac maent wedi casglu tystiolaeth gryfach o ran dangos ei effaith, na'r rhai sydd wedi defnyddio dull mwy ad-hoc. Mae ALLau sy'n annog arloesi ac arbrosi yn defnyddio swyddogaethau ehangach Copilot o gymharu â'r rheini sy'n cyfyngu'r cyfryngau / awgrymiadau y mae ymarferwyr yn eu defnyddio.

Mae sylfaen dystiolaeth yn dod i'r amlwg o ran effeithiau cadarnhaol ar les y gweithlu, arbed amser ac effeithlonrwydd wrth ymgymryd â thasgau, sy'n arwain at dreulio llai o amser ar dasgau gweinyddol a mwy o amser ar gefnogi pobl. Nid yw'r hyn a ddysgwyd wedi'i goladu'n ganolog ac nid yw'n cael ei rannu i raddau helaeth rhwng ALLau. Mae hyn yn arwain at ganfyddiad nad oes llawer o dystiolaeth gredadwy i gefnogi'r gwaith i'w ledaenu'n ehangach.

Cymysg yw'r farn ynglŷn ag effeithiolrwydd Copilot ymysg grwpiau gwahanol o ymarferwyr ac mewn timau gwahanol. Mae rhai ALLau yn dadlau dros ei fanteision i weithwyr cymdeithasol, eraill i swyddogion gweinyddol neu uwch reolwyr, ac eraill dros ddefnyddio gwahanol offer AI fel Magic Notes ar gyfer swyddogaethau fel tasgau gweinyddol. Nid oes un dull 'sy'n gweddu i bawb' o ran yr hyn sy'n gweithio'n ymarferol.

Mae'r rhwystrau pennaf sy'n bodoli o ran gweithredu Copilot yn cynnwys cyllid, goddefgarwch risg, llywodraethu, cyfyngiadau technegol, amser hyfforddi, a chyflymder y newid. Gellir lliniaru rhwystrau trwy gwtogi ar drwyddedau lefel uwch (mae'r un safonol yn aml yn ddigon), monitro datblygiadau a chyfyngiadau o ran ei swyddogaeth, a chyfathrebu'n barhaus â defnyddwyr a'r cyhoedd am fanteision a therfynau'r dechnoleg.

Mae'r hyn sy'n galluogi rhoi Copilot ar waith yn cynnwys dulliau amlddisgyblaethol, rhaglenni yng ngofal arweinwyr dynodedig, buddsoddi sy'n cael ei dargedu a chydweithio ymysg yr ALLau. Mae dulliau wedi'u teilwra ar gyfer ei ddefnyddio ar lefel ALI, lefel tîm a lefel defnyddiwr yn seiliedig ar anghenion gwasanaeth, hefyd yn sicrhau bod yr offeryn yn cael ei ddefnyddio ar ei orau. Mae negeseuon clir ynghylch defnyddio'r dechnoleg mewn modd derbyniol a moesegol yn ogystal â sicrhau ei fod yn cyd-fynd â fframweithiau cyfreithiol ac ymarfer yn hanfodol.

Mae'r rôl a awgrymir ar gyfer sefydliadau cenedlaethol o ran cefnogi ALLau, yn cynnwys rhoi arweiniad clir a chynghor cyfreithiol, hwyluso rhwydwaith AI yn genedlaethol, a chasglu tystiolaeth a dysgu mewn lle canolog, i lywio'r dasg o wneud penderfyniadau. Byddai cyfathrebu fwy clir ynghylch llywodraethu yn gwella dealltwriaeth, gan fod y mwyafrif yn teimlo bod yr ymagwedd genedlaethol at AI yn dameidiog iawn ac yn anodd ei lywio. Mae hyn yn arwain at ddyblygu ymdrechion a diffyg ymwybyddiaeth ynghylch ble i gael gwybodaeth.

Mae ALLau yng Nghymru yn gwneud cynnydd pendant a chyflym wrth archwilio offer AI, ac mae brwdfrydedd cryf a manteision yn dod i'r amlwg o ran effeithlonrwydd gweithredu a lles staff. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd yn gyfartal, ac mae risgiau yn fwy helaeth oherwydd dulliau rheoli anghyson, canllawiau cenedlaethol aneglur, ac amrywiad sylweddol o ran parodrwydd.

Pan gaiff ei ddefnyddio'n ofalus ac mewn ffordd feirniadol, mae manteision a chyfyngiadau amlwg o ran ymgorffori offer a llwyfannau AI yn yr ymarfer gwaith cymdeithasol. Er bod ganddo botensial i weithredu fel adnodd gwybyddol, ni archwiliwyd yn ddigonol i'w effaith ar ymarfer unigol, o ran dylanwad, gorddibyniaeth wybyddol a dirywio sgiliau⁹.

Bydd dull cenedlaethol cydgysylltiedig sy'n cefnogi mesurau rheoli, eglurder cyfreithiol, dysgu ar y cyd, hyfforddiant a chaffael, yn helpu i wneud y mwyaf o'r buddion, yn sicrhau cysondeb, ac yn meithrin hyder ymysg yr ymarferwyr a'r cyhoedd.

Argymhellion

I sefydliadau cenedlaethol:

1. Hwyluso Rhwydwaith Hyrwyddwyr AI yn Genedlaethol

Cydweithredu: Hwyluso Rhwydwaith Hyrwyddwyr AI yn gnedlaethol, sy'n cefnogi arloesi, dysgu ar y cyd a dealltwriaeth am dirwedd AI sy'n esblygu. Awgrymwyd y byddai targedu sesiynau ar wahanol themâu yn sicrhau bod y rhai sydd â diddordeb yn manteisio ar y cyfleoedd dysgu micro mwyaf priodol, yn hytrach na'r grŵp yn dod yn 'siop siarad' eang. Mae ffocws ar feysydd ymarfer (fel ymateb i gwynion neu gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gofal) yn hytrach na ffocws ar offer penodol yn hanfodol, oherwydd mae ALLau yn defnyddio gwahanol offer ar gyfer y swyddogaethau hyn.

2. Datblygu sylfaen dystiolaeth a hwb dysgu canolog

Dysgu: I goladu achosion dysgu a defnydd trwy sylfaen dystiolaeth ganolog. Dadansoddi themâu sy'n deillio o werthusiadau ac asesiadau effaith yr ALL i gefnogi'r achos dros fuddsoddi parhaus, lle bo hynny'n angenrheidiol. Rhannu cyfryngau datblygu ac awgrymiadau gydag elfen o reoli ansawdd i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel. Rhannu cyfathrebu clir gyda'r cyhoedd am AI a'r ffordd y mae'n cael ei ddefnyddio yn y maes gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd drwy Swyddfa AI Llywodraeth Cymru i werthuso'r gwahanol offer trawsgrifio sy'n cael eu defnyddio yn y maes gofal cymdeithasol - mae hyn ar hyn o bryd yn y cyfnod Darganfod a disgwylir yr adroddiad ar ddiwedd mis Mawrth. Bydd y canfyddiadau yn llywio'r argymhelliad hwn

3. Darparu canllawiau a chyngor cyfreithiol

Canllawiau: Datblygu canllawiau a rhoi cyngor cyfreithiol am y safonau sylfaenol a ddisgwylir gan ALLau mewn perthynas â defnyddio AI a Copilot, a'i fodd o gymhwyso mewn lleoliadau cyfreithiol penodol fel achosion llys. Datblygu matrices sy'n dangos y gwahaniaethau rhwng gwahanol lefelau o drwydded mewn sefyllfaoedd gofal cymdeithasol penodol, a chadw hyn yn gyfredol i lywio penderfyniadau ALL. Mae'r Prosiect Darganfod 'AI yn y Gyfraith' yn adrodd i biler Dyfeisgarwch Disglair DiSC – bydd yn helpu i egluro'r hyn sy'n dderbyniol o ran defnyddio AI yn y Llysoedd i gefnogi ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n gorfod cynhyrchu dogfennaeth ar gyfer y System Gyfiawnder. Bydd yn archwilio'r hyn y mae'r systemau Cyfiawnder yn ei ddweud a chanfyddiadau cyfraith achos. Bydd yn helpu i ddeall beth sy'n cael ei ganiatáu neu y gellir ei ganiatáu a rhoi arweiniad i YGC ar sut i ddefnyddio offer AI i gefnogi eu gwaith a bodloni gofynion y system gyfiawnder. Byddai'n ddefnyddiol pe bai cynrychiolydd o ADSS

⁹ Gillon, Fern and Weaver, Beth. (2026). Generative AI, critical thinking and social work practice. [Ar-lein] Cyrchwyd ar: [Generative AI, critical thinking and social work practice | Iriss](#) 12 Mawrth 2026.

Cymru yn gallu meithrin cyswllt â'r prosiect hwn i sicrhau bod heriau gweithredol yn y maes gofal cymdeithasol yn cael eu cynnwys yn y gwaith hwn.

4. Hyrwyddo cysondeb ar draws sefydliadau cyhoeddus

Cysondeb: Gweithio tuag at gydweithio ag asiantaethau a chadw cysondeb mewn perthynas â defnyddio offer AI yn y gwasanaethau cyhoeddus ar draws y meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, heddlu, addysg a'r gwasanaeth prawf. Cefnogi cytundebau traws-asiantaeth ynghylch defnyddio AI mewn lleoliadau cymhleth fel cyfarfodydd MARAC neu gynadleddau amddiffyn plant.

I ystyried yr arfer da a'r canllawiau presennol sy'n cael eu datblygu yng Nghymru, ystyrir yr argymhellion canlynol – l'r Awdurdodau Lleol:

1. **Bennu arweinydd/arweinwyr ar gyfer y rhaglen** i oruchwylio'r gwaith o arloesi a thrawsnewid systemau gydag offer Copilot / AI, ac i sicrhau bod mesurau rheoli cadarn yn cael eu sefydlu ochr yn ochr â'r gwaith o ddatblygu canllawiau a pholisïau cynhwysfawr o ran defnyddio'r offer.
2. **Defnyddio dulliau amlddisgyblaeth.** Sicrhau bod arweinwyr Digidol, timau AD a datblygu'r gweithlu yn gweithio gyda rheolwyr ac ymarferwyr gofal cymdeithasol i roi offer Copilot / AI ar waith a theilwra ei ddefnydd mewn gwahanol leoliadau a rolau
3. **Prynu trwyddedau yn strategol** yn seiliedig ar angen, bod yn ymwybodol bod y drwydded safonol yn aml yn ddigon, tra bydd angen y drwydded uwch ar y rhai sy'n defnyddio swyddogaethau ehangach.
4. **Cynnig cefnogaeth a hyfforddiant parhaus i staff** sy'n defnyddio Copilot; ei fonitro i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel a bod y trwyddedau a brynwyd yn cael eu defnyddio'n effeithlon. Sicrhau bod hyfforddiant AI yn rhan o asesiadau anghenion hyfforddi blynyddol ac yn cysylltu â chynlluniau'r gweithlu mewn ALLau.
5. **Gwerthuso effaith i sefydlu sylfaen dystiolaeth** o ran yr hyn sy'n gweithio, a dysgu gan awdurdodau eraill drwy ddysgu ar y cyd a chydweithio

Atodiad A: Astudiaethau Achos – Y Sylfaen Dystiolaeth sy'n Dod i'r Amlwg

ASTUDIAETH ACHOS UN: RHONDDA CYNON TAF
<p align="center">Defnyddio AI yn Ymarferol</p> <p>Gwasanaethau i Oedolion – 350 o drwyddedau, nid yw 10-15% ohonynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd</p> <p>Cwblhawyd yr arolwg a chafwyd dros 50 o ymatebion, hanner y gronfa darged ar gyfer yr arolwg.</p> <ul style="list-style-type: none">• Asesiadau Risg• Asesiadau Anghenion• Creu Cynllun Gofal• Adolygu Nodiadau Achos• Asesiadau Galluedd Meddyliol• Paratoi adroddiadau• Crynhoi gwybodaeth• Ysgrifennu negeseuon e-bost <p>Mae staff yn datblygu awgrymiadau newydd yn rheolaidd – mae'r staff hynny sydd yn cael caniatâd, yn cael hyfforddiant ac adnoddau amlgyfrwng canolog ar sut i ddatblygu eu rhai eu hunain</p>
<p align="center">Llesiant</p> <p>Nododd hanner y rhai a gymerodd rhan yn arolwg fod Copilot wedi gwella eu lles</p> <p>Roedd 75% yn teimlo'n fwy cadarnhaol am eu rôl</p>
<p align="center">Arbed Amser/Effeithiolrwydd</p> <p>Adroddodd 86% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg fod yr ansawdd yn well.</p> <p>Nodwyd bod ystod amser wedi ei arbed ar draws achosion ymarferol a restrwyd uchod.</p>
<p align="center">Hyfforddiant</p> <p>Sesiwn hyfforddi dan arweiniad TGCh i bawb, wedi ei ddatblygu ar y cyd â Gwasanaethau i Oedolion</p> <p>Cwmpasu moeseg, adeiladu awgrymiadau, cadw cyswllt person ac atebolrwydd</p> <p>Tîm mabwysiadu materion digidol a chefnogaeth barhaus i'r prosiect</p> <p>Annog arbrofi a datblygu, cymryd rhan mewn ymarfer Microsoft ar y cyd / awgrym-athon ac mae digwyddiadau wedi eu cynllunio ar gyfer y dyfodol.</p>
<p align="center">Dull a Gynlluniwyd</p> <p>Cynllun peilot ar gyfer trawstoriad sylweddol o dimau yn y maes gofal cymdeithasol i oedolion (ac yn lledaenu'n ehangach ar draws y Cyngor i werthuso achosion defnydd ac achosion defnydd diffinedig)</p>

Defnyddio trwyddedau CoPilot M365, CoPilot safonol/ E3 / Teams, trwyddedau lefel premiwm, angen cael achosion defnydd a chanlyniadau ar gyfer set offer er mwyn helpu i benderfynu pwy sy'n cael pob lefel

Mabwysiadu TG ; gweithio gydag Arwyr Digidol o rheng flaen GC. Gweithdai, Cyfarfodydd Tîm, cefnogaeth 1:1, ystyried achosion defnydd a defnyddio o'r newydd

Gweithio ar draws adrannau gyda'n gilydd i ddod o hyd i ffyrdd o ddefnyddi o'r newydd

Defnyddio gyda GC yn gyntaf, symud ymlaen i dimau Un Pwynt Mynediad, asesiadau risg, gwasanaethau uniongyrchol a ThG ac ati (camau'n mynd rhagddynt i'w gyflwyno'n ehangach)

Barn Defnyddwyr am Copilot

Yn gadarnhaol yn bennaf ond mae rhai staff angen cymorth ychwanegol

Parhau i achosion defnydd y tu allan i waith cymdeithasol

Astudiaeth Achos Dau: Conwy

Defnyddio AI yn Ymarferol

Maint Sampl yr Arolwg = 40

- Creu dogfennau
- Trawsgrifio cyfarfodydd
- Ymchwil
- Diweddariadau o e-bost/ffeiliau
- Crynhoi data

Llesiant

Roedd yr amser a arbedwyd yn cefnogi gweithio'n fwy effeithiol

Arbed Amser / Effeithiolrwydd

Yn seiliedig ar adborth gan ddefnyddwyr ar yr adeg y cynhaliwyd yr arolwg, byddai modd arbed o leiaf 36,000 o oriau y flwyddyn (£849k pe bai'n cael ei ddefnyddio ar draws chwarter sylfaen defnyddwyr y Cyngor – sy'n gyfystyr â 18 cyfwerth ag amser llawn (gan dybio y bydd 2 awr y mis o amser yn cael ei arbed). Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'n gyfyngedig o ran faint o wasanaethau sy'n ei ddefnyddio ac mae'n dal i fod yn llai na 100 o drwyddedau llawn – sy'n golygu bod yr oriau a arbedwyd yn 6000 / £149k (tua £30k o ran costau) felly mae angen defnyddio'r wybodaeth hon yn ofalus

Nododd 35% o'r rhai a holwyd eu bod yn arbed dros 7 awr y mis

Nododd 52% arbedion o rhwng 1-7 awr y mis

Dylid nodi bod y canlyniadau hyn:

- Yn amcangyfrif yn seiliedig ar adborth gan y grŵp o ddefnyddwyr oedd yn fodlon defnyddio Copilot, gan gynnwys rolau proffesiynol / uwch yn bennaf fel rheolwyr, swyddogion cyllid, cymorth ysgrifenyddol, peirianwyr, cymorth gwaith cymdeithasol
- Cynhaliwyd yr arolwg cyn Magic Notes ac offer AI eraill y mae'r ALI wrthi'n cyflwyno fel

<p>offeryn trawsgrifio / crynhoi. Rhagwelir y bydd Magic Notes yn cael effaith sylweddol ar ymarfer a fyddai'n lleihau buddion Copilot ac ar hyn o bryd mae'n well ar gyfer y swyddogaethau hyn.</p>
<p>Hyfforddiant</p>
<p>Cwblhaodd 44% ddiwrnod hyfforddi ar y safle, aeth 38% ati i hyfforddi eu hunain ar-lein, nid ni chafodd 17% unrhyw hyfforddiant</p>
<p>Dull a Gynlluniwyd</p>
<p>Cynnig trwyddedau i wasanaethau ar gais, gan adolygu ei ddefnydd bob 6 mis / dileu trwyddedau nad ydynt yn cael eu defnyddio</p> <p>Nid yw'r argymhelliad o gyflwyno i 25% yn mynd yn ei flaen, nawr bod y fersiwn am ddim ar gael / offer AI eraill yn cael eu hystyried.</p> <p>Gwaith Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad gyda TG i ddatblygu cwrs hyfforddi 1 diwrnod, cynnal 1-2 y mis ar gyfer hyd at 10 o bobl</p> <p>Ar y cyfan, roedd rhai manteision, serch hynny, mae tystiolaeth gref hefyd bod cynhyrchion AI eraill yn cynnig sgôp i arbed llawer mwy o ran capasiti o ystyried profiadau diweddar . Efallai nad Copilot yw'r cynnyrch gorau yn y tymor hwy. Gall gwasanaethau barhau i brynu trwyddedau ond nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio'r offeryn ar raddfa fawr.</p>
<p>Barn Defnyddwyr am Copilot</p>
<p>Ar adeg yr arolwg:</p> <p>Nododd 97% bod Copilot rhywfaint yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol dros ben ar gyfer tasgau dyddiol</p> <p>Mae 61% yn ei ddefnyddio bob dydd a 37% pellach yn wythnosol</p> <p>Yn ôl profiad, mae Copilot yn offeryn gwych sy'n cael ei ddefnyddio'n eang, fodd bynnag, mae rhai cynhyrchion AI yn perfformio'n well mewn tasgau penodol. Nid yw Copilot yn sefyll allan mewn unrhyw faes penodol ar hyn o bryd.</p>

<p>ASTUDIAETH ACHOS 3: CAERDYDD</p>
<p>Defnyddio AI yn Ymarferol</p>
<p><i>Mae Copilot yn cael ei ddefnyddio'n bennaf fel offeryn ysgrifennu, crynhoi a threfnu. Mae'n cefnogi staff i:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> - Ddrafftio gwaith Deddf Galluedd Meddyliol a'i strwythuro, yn enwedig os yw'r wybodaeth yn gymhleth. - Crynhoi gwybodaeth gefndir a throi nodiadau bras yn destun ysgrifenedig mwy clir - Cefnogi nodiadau goruchwyllo, myfyrdodau, a chamau dilynol ar ôl trafodaethau goruchwyllo. - Drafftio negeseuon e-bost, adroddiadau, crynodebau cyfarfodydd, a chofnodion. - Paratoi drafftiau cyntaf o ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r llys, sydd yna'n cael eu gwirio a'u mireinio gan ymarferwyr.

- Dod o hyd i bolisiâu a chanllawiau a'u crynhoi mewn negeseuon e-bost, ffeiliau, a SharePoint.

Nid yw Copilot yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau.

Staff sy'n gyfrifol bob amser! am farn broffesiynol, atebolrwydd, a chymeradwyaeth terfynol.

Llesiant

Mae Copilot yn cael ei werthfawrogi'n fawr fel addasiad rhesymol.

Mae'r staff yn adrodd ei fod yn:

- Helpu i leihau llwyth gwybyddol ar ddiwrnodau prysur /lle mae llawer o bwysau.
- Cefnogi cydweithwyr â dyslecsia trwy wella sillafu, strwythur ac eglurder.
- Helpu rhai staff awtistig i addasu tôn mewn e-byst ac adroddiadau.
- Caniatáu i staff wirio gwaith cyn ei anfon, felly'n cynyddu hyder.
- Yn ôl staff, mae'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn fwy hyderus ac yn cael eu cynnwys fwy yn y gwaith.

Arbed Amser/ Effeithiolrwydd

Mae staff yn adrodd yn gyson bod Copilot yn:

- Arbed amser ar negeseuon e-bost, adroddiadau, cofnodion, a gwaith papur.
- Lleihau'r baich gweinyddol, yn enwedig o ran crynhoi gwybodaeth.
- Cynhyrchu drafftiau cyntaf cadarn, y gellir eu hadolygu a'u gwella'n gyflym.
- Gwella cysondeb a natur broffesiynol gwaith ysgrifenedig.
- Helpu staff i symud ymlaen i'r dasg nesaf yn gyflymach ar ddiwrnodau prysur.

Mae'r rhan fwyaf o staff yn dweud:

- Ei fod yn arbed amser ac yn helpu llawer.
- Byddent yn ei fethu pe bai'n cael ei gymryd i ffwrdd.

Pecynnau Gofal – Eglurhad Pwysig

- Nid yw Copilot yn cael ei ddefnyddio i ddylunio, cymeradwyo, na gwneud penderfyniadau am becynnau gofal.
- Mae staff yn adrodd ei fod yn helpu o ran gweinyddu pecynnau gofal, er enghraifft:
 - o Trefnu nodiadau a gwybodaeth.
 - o Crynhoi asesiadau.
 - o Cefnogi esboniadau ysgrifenedig mwy clir.
- Ymarferwyr a rheolwyr sy'n parhau i wneud unrhyw benderfyniadau yn gyfan gwbl.

Hyfforddiant

Cynnig sesiwn hyfforddi undydd

Dull a Gynlluniwyd

Gall gwasanaethau brynu trwyddedau – ar lefel gwbl hygyrch M365 E5
Hefyd yn defnyddio Magic Notes

Barn Defnyddwyr am Copilot

Mae'r tîm diogelu yn hoff iawn ohono

Mae rheolwyr yn adrodd bod Copilot yn ddefnyddiol iawn

Nodwyd manteision ar draws y timau gwaith cymdeithasol, staff swyddfa gefn a staff gweinyddol, ac fe wnaeth pobl sy'n gwneud gwaith gallu meddyliol cymhleth a gwaith llys hefyd ddweud ei fod yn ddefnyddiol

Heriau Copilot

- angen gwirio am wallau
- Cyfieithiadau weithiau'n anghywir
- angen hyfforddiant mwy syml

Nid yw problemau wedi atal pobl rhag defnyddio'r offeryn